




June 1st 1913.



Jennie Ellis,
68 Leaneddi Terr.
Bethesda.



TŷA GWLAD MACHEUD HAUL.
"Hir a maith yn ddiau yw'r daith i Virginia." II. 42.



ARGRAFFWYD I AB OWEN GAN R. E. JONES A'I FRODYR,
CONWY.

Rhagymadrodd.



BFER fu disgwyl Goronwy Owen yn Llundain. Ni chafodd le fel caplan i eglwys Gymraeg, na fawr oddiwrth y Cymrodorion. Ofer y ceisiodd am fywoliaeth Mallwyd, ofer yr hiraethodd am gyfle i gasglu Geiriadur Cymraeg llawnach nag un Dr. John Davies. Digiodd y tri brawd caredig, y Morysiaid, o dro i dro; Lewis Morris oherwydd iddo ymddwyn yn annoeth ymysg y Cymrodorion, William Morris oherwydd iddo gadw y Delyn Ledr yn rhy hir, a Richard Morris oherwydd yr oferedd diamcan a'i cadwai yn dlawd. Ni threuliodd yn Llundain ond Mai a Mehefin 1755.

Ym Mehefin 1755 cafodd guradiaeth Northolt, ym Middlesex, gerllaw Llundain. Yno y bu, yn dlawd, ond yn weddol hapus, am ddwy flynedd.

Yn 1757 cafodd gynnyg swydd athraw mewn ysgol yn perthyn i hen goleg Williamsburg yn Virginia. Temtiodd y cyflog ef i droi, yn llesg a siomedig, tu i gwlad machlud haul. Buasai son am gyhoeddi ei waith; ond, pan adawodd ef a'i wraig a'i dri phlentyn Brydain am byth yn Rhagfyr 1757, nid oedd dim o'i waith mewn argraph. Bu farw ei wraig Elin a'i fab ieuengaf ar y môr; glaniodd yn yr Amerig gyda Robert a Goronwy yn unig. Ail briododd â chwaer Llywydd y Coleg, ond ber iawn fu'r briodas. Bu'n athraw Lladin a Groeg hyd 1760, pan yr aeth yn berson St. Andrews, Brunswick County. Erbyn 1767 yr oedd wedi colli pob un o'i deulu ond Robert, yr oedd yn briod y drydedd waith, yr oedd wedi clywed am gyhoeddi peth o'i waith ac am farw Lewis Morris. Bu'n berson St. Andrews hyd Gor. 22, 1769, a thybir iddo farw yn fuan wedyn.

Mae rhai o'i deulu eto 'n byw yng nghartref diwedd ei oes. Pan gynhaliwyd yr Eisteddfod yn Chicago, ym Medi, 1893, yr oedd un o'i ddisgynyddion, o'r un enw, yn yr ŵyl.

Cyhoeddwyd peth o'i waith pan oedd ef yn Amerig gan Hugh Jones o Langwm yn y "Dedwyddwch Teuluaidd," 1763. Yn raddol daeth ei holl farddoniaeth i'r golwg yng "Nghorff y Gainc" Dafydd Ddu Eryri yn 1810; yn yr ail argraffiad o'r "Diddanwch Teuluaidd" yn 1817; yn "Gronoviana" John Jones o Lanrwst yn 1860; yn "The Poetical Works of the Rev. Goronwy Owen, with his life and correspondence," gan y Parch. Robert Jones, Rotherhithe, yn 1876; ac yn "Holl Waith Barddonol Goronwy Owen," gyhoeddwyd tua'r un pryd, gan Llyfrbryf.

O dipyn i beth daeth darnau o lythyrau Goronwy Owen i'r amlwg, yn enwedig ei lythyrau at y tri brawd o Bentre Eirianell,—yn y "Greal," y "Cambrian Register," y "Cambro Briton," y "Gwyllydydd," "Gronoviana," ac ail gyfrol y Parch. Robert Jones.

Er hyn i gyd nid yw ei wlad wedi gwneyd hanner cyfiawnder ag awen rymusgain Goronwy Owen, nag a'r meddyliau tarawiadol sydd yn ei lythyrau,—fflachiadau athrylith gŵr allasai wneyd llawer dros Fon a Chymru heblaw hiraethu am danynt, pe cawsai gyfle.

Bu ei ddylanwad ar Gymru 'n fawr. Tynnodd sylw oddiwrth gerddi rhyddion esmwyth dechreu'r ddeunawfed ganrif at swyn y Gynghanedd. Anodd peidio meddwl na fydd ei ddesgrifiadau o'r farn, o'r diafol, o dlodi, ac o Fon yn rhan o ystôr meddwl pob llenor Cymreig hyd byth.

*Llanuwchllyn,
Medi 1, 1901.*

OWEN M. EDWARDS.

Mao fystudd rhy brudd im bron,
hyd of Wynob
Ihad afonydd heulltion,
Lollais Idu, liw Hinon,
Fy Ngonoeth oloubleth lonr.
Anwylid oleubryd lân,
Angyles gyrrnes ei gwon,
Oedd curiaith mabiaith oi min,
Ineth liw Sôr (ni thâl son.)
Oedd fwyn llais addfain ei llun
afisithus graesawus sŵn
Iw Ihad; yz ymddifad Ldyr!
Ymddifad ei Ihad, a thwmn
Archoll yn ei freiddoll frown,
Yngsther digysur, da giwnn,
yn gaeth om hir aeth am honn

LLAWYSGRIF GORONWY OWEN.

Y Caneuon.

YN OL TREFN EU HAMSER.

BL.	CAN	TUD.	BL.	CAN.	TUD.
1741	Englynion o Weddi	10		Marwnad John Owen	II. 67
	Englyn o Gyngor (?)	II. 57		Brut Sibli	II. 81
1743	Calendr y Carwr	11 ; II. 57		Cywydd y Cynghorfynt	70
1746	Englyn ar ddydd Calan	13		Caniad y Cymrodorion	II. 75
1751	Ymddiddan rhwng y bardd a'i awen	20		Tri englyn milwr	II. 72
1752	Awdl y Gofuned	22		I Elisa Gowper	II. 74
	Cywydd y Farf	23		Marwnad Elin	111
	Cywydd y Farn Fawr	28		Awdl Tywysog Cymru	II. 72
	Bonedd yr Awen	37	1755	Psalm cvii	67
	Cywydd i'r Awen	40		Cywydd i'r Calan	107
	Cywydd i Lewis Morris	42		Arwyrain y Nennawr	II. 11
	Marwnad Marged Morris	51		Cywydd y Gwahawdd	II. 16
	Cywydd i Ieuan Brydydd Hir	II. 59		Dau bennill gwawdodyn hir	II. 85
	Cywydd y Gem	46	1756	Cywydd ar wyl Dewi	II. 83
1753	Cywydd i'r Calan	64		Annerch Huw ap Huw	II. 34
	Hiraeth am Fon	62		Cywydd Cryfion Byd	II. 29
	Cywydd Tyw'sog Cymru	II. 61		Awdl i ateb Ieuan Brydydd Hir	II. 80
	Cywydd i ofyn francod	II. 63		Twm Sion Twm	II. 86
	Cyfieithiadau o Anacreon	II. 65		Cywydd i Ddiafol	II. 20
1754	Prïodasgerdd Elin Morris	88		Cywydd y Cyw Arglwydd	II. 26
	Englynion i ofyn cosyn	II. 66	1767	Marwnad Lewis Morris	II. 48

Cynhwysiad.

LLYTHRAU.

GWAITH BARDDONOL.

IV. YN LLUNDAIN.

Symud a Blinder	9	Arwyrain y Nennawr	11
-----------------------	---	--------------------------	----

V. YN NORTHOLT.

Bywyd yn Northolt	13	Cywydd y Gwahawdd	16
Dig Lewis Morris.....	19	Cywydd i Ddiafol	20
		Cywydd y Cyw Arglwydd ..	26
		Cywydd y Cryfion Byd	29
		Cywydd Ateb Huw ap Huw ..	34
Molawd Mon	33		
Colli Tymer	41		
Penderfynu Ymadael ..	41		
Cychwyn	44		

VI. O'R GORLLEWIN.

Bywyd yn y Wlad Bell ..	46	Marwnad Lewis Morris ..	48
-------------------------	----	-------------------------	----

ATTODIAD I.—GWEDDILL Y CANU.

Calendr y Carwr (Rhan II.) ..	58	Darn o Awdl.....	72, 100
Englyn o Gyngor	58	Argraff ar Flwch Tybaco ..	73
Proest Cadwynodl Bogalog ..	58	Tri Englyn Milwr	73
Englyn a Sain Gudd.. ..	58	Englynion i Elis Roberts ..	74
Cywydd i Ieuan Brydydd Hir ..	59	Caniad y Cymrodorion	75
Englynion o Glod i'r Delyn ..	60	Awdl i Ieuan Brydydd Hir ..	80
Cywydd i Dywysog Cymru ..	61	Brut Sibli.....	81
Cywydd i Ofyn Ffrancod ..	63	Englyn i John Dean	82
Cyfieithiadau o Anacreon	65	Cywydd ar Wyl Dewi	83
Englynion i Ofyn Cosyn	66	Dau Bennill Gwawdodyn Hir ..	85
Marwnad John Owen	67	Twm Sion Twm.....	86

ATTODIAD II.—BEIRNIADAETHAU.

The British Awen	87	Y Pedwar Mesur ar Hugain..	94
Patriotism	90	Anibyniaeth Barn	96
Datyd ap Gwilym	92		

ATTODIAD III.—ESBONIADAU.

Cerydd W. Wynn, Mawl J. Owen	99	Gwyl Dewi, Elisa Gowper ..	103
------------------------------------	----	----------------------------	-----

MYNEGAI

101—112

Gydag esboniadau ar eiriau a phethau.

Y Darluniau.

"Tua gwlad machlud haul." <i>I zwynebu tud.</i>	
Arthur E. Elias.	
Wyneb-ddalen. "Ffordd yr Alltud".....	1
Winifred Hartley.	
Y Diafol. <i>I zwynebu tud.</i>	24
Arthur E. Elias.	
"Y diafol, arglwydd dufwg, Ti du ei drem, tad y drwg." Cyf. II. tud. 20.	
Tlodi, un o dri chryfion byd. <i>I zwynebu tud.</i>	32
Arthur E. Elias,	
"Gwiddon eiddilon ddwyllaw, A lleu pob ewin o'i llaw." Cyf. II. tud. 32.	
Ynys Mon. <i>I zwynebu tud.</i>	40
S. Maurice Jones.	
"Henfych well, Fon dirion dir, Hyfrydwch pob rhyw frodir." Cyf. II. tud. 38.	
"Lle i'm pen tan nennawr." <i>I zwynebu tud.</i>	57
Arthur E. Elias.	
"A'i diystyr lle distaw Wrth grochleu yr holl dref draw?" Cyf. II. tud. 11.	
Ymysg y Cymrodorion. <i>I zwynebu tud.</i>	80
Arthur E. Elias.	
"Uthr oedd ganddo weled y bardd 'fal iar mewn mwg, a'r niwl gwyn yn droellau o amgylch ei ben, like a glory in a picture.'" Cyf. II. tud. 19.	



GORONWY OWEN.

IV. YN LLUNDAIN.

At William Morris, Meh. 7, 1755.



CAREDICAF gyfaill, y mae'n gryn gywilydd gennyf na ysgrifenaswn atoch yn gynt. "Wala hai," meddwch chwithau, "dyna esgus pob dyn diog." Ond ymhell y bwyf os oes gennyf rith o ddim i'w ysgrifennu weithion; ac oni bai ofn bod yn ddau eiriog, mi ddywedwn ei bod hi'n rhy fuan i ysgrifennu eto.

Mi fum yn hir yn lluddedig, ar ol fy maith ymdaith o'r Gogledd; ac nid oes eto ddim gwastadfod na threfn arnaf; ond yr wyf yn gobeithio na byddaf 'chwaith hir heb sefydlu mewn rhyw le, oblegyd fod y Cymrodorion i gyd yn gyffredinol, y ddau frawd yn enwedig, yn ymwrando ac yn ymofyn am le imi.

Wele! dyma fi wedi myned yn un o'r Cymrodorion yn y cyfarfod diweddaf; ond ni welaf eto fawr obaith cael eglwys Gymreig. Pobl wychion odidog, mi rof i chwi fy ngair, yw 'r Cymrodorion, dynion wyneb lawen, glân eu calonnau oll. Mae'n debyg y gyr y pen llywydd, Mynglwyd, i

chwi Lyfr y Gosodedigaethau, oni yrrodd eisus. Gwych o hardded yw arfau Llewelyn ap Gruffydd, llun Dewi Sant, a derwydd, &c., sydd o flaen y llyfr, wedi eu torri ar gopr yn gelfyddgar ddigon. Ni welwyd yng Nghymru erioed debyg i'r llyfr hwn.

Y mae pawb yma yn rhwydd iachus, fel yr ych yn clywed, mae 'n debyg, yn o fynych. Mae fy holl dylwyth i yma bob y pen, ond fy merch bach a fynnai aros yn Monwent Walton o fewn deu-rwd neu dri at y fan y ganwyd hi. Mi wnaethum ryw ddarn o farwnad iddi hi, yr hon mae 'n debyg a welsoch cyn hyn.

Rhowch fy ngwasanaeth at Mr. Ellis yn garedig; a gadewch gael rhyw swm o newyddion o Fon gynta galloch. Chwi a welwch na fedraf ond rhy brin ymodi fy mlin na 'm bysedd i ysgrifenu, ac yn wir nid oes arnaf na llun na threfn iawn o eisieu sefydlu mewn rhyw wastad fod fy hun. Gyrrwch cyhyd a'ch bys o lythyr yma gyntaf ag y galloch, er cariad ar Dduw, ac yno odid na fyddaf mewn gwell cyflwr i'ch ateb y tro nesaf. Dyma Mr. John Owen yn rhoi llythyr at ei fam yn yr un ffrencyn. Ein gwasanaeth at bawb a'n caro 'n ein cefnau. Byddwch wych.

GORONWY DDU.

ARWYRAIN Y NENNAWR.

THE GARRET POEM

GROESAW i'm diginiaw gell :
 Gras Dofydd ! gorau 'sdafell.
 Golygle a gwawl eglur,
 Derchafiad offeiriad ffur.
 Llety i fardd gwell ytwyd
 Na 'r twrdd wrth y bwrdd a'r bwyd :
 Mwy dy rin am ddoethineb
 Na gwahadd i neuadd neb.
 Hanpwyf foddlon o honod,
 Fur calch ; ond wyf falch dy fod !
 Diau mai gwell, y gell gu,
 Ymogel na 'th ddirmygu ;
 Nid oes—namyn di foes da
 Was taer—a 'th ddiystyra :
 Ai diystyr lle distaw
 Wrth grochlef yr holl dref draw ?
 Lle mae dadwrdd gwrdd geirddadl
 Rhwng puteiniaid a haid hadl,
 Torfoedd ynfyd eu terfysg ;
 Un carp hwnt yn crio, 'Pysg' ;
 Tro arall 'Howtra hora' ;
 Crio 'Pys,' 'Ffigys,' neu 'Ffa.'
 Gwich ben a trwy ymenydd,
 Dwl dwfr, trwy gydol y dydd ;
 Trystiau holl Llundain trosti,
 A'i chreg waedd ni charai gi.

Os difwyn—gwae ddi sdafell—
 Clywed nid oes gweled gwell ;
 Gweled ynfyd glud anferth
 O'r wâr a fynnych ar werth !
 Gwên y gŵr llys, yspys oedd,
 Eddewidiwr hawdd ydoedd ;

Cledd y milwr arwrwas ;
 Dwndwr yr eglwyswr glas ;
 Cyngor diffeith cyfreithiwr ;
 Trwyth y meddyg, edmyg wr ;
 Diod gadarn tafarnwas,
 Rhyw saig gau ei frwysgwraig fras ;
 Rhad werth ar pob rhaid wrthaw,
 Corff, enaid, llygaid, a llaw ;
 Ond na cheir gan ddiweirdeb
 Prisiau am eneidiau neb,
 Ond enaid anudonwr
 A'i chware ffals, a chorph hwr.

Dyna'r gair yn eu ffair ffol ;
 Dedwydd im gell a'm didol
 Tua'r nen uwch eu pennau ;
 Amor it', ymogor mau !
 Per Awen i nen a naid ;
 Boed tanodd i buteiniaid.
 Tra fo 'm cell i'm castelli,
 Ni 'm dawr a fo i lawr o lu.
 Ni ddoraf neuadd arall ;
 Ni chlywaf, ni welaf, wall.
 Heddyw pond da fy haddef,
 A noeth i holl ddoniau nef ?
 Gwelaf waith Ion, dirion Dad,
 Gloew awyr a goleuad ;
 A gwiwfaint fy holl gyfoeth
 Yw lleufer dydd a llyfr doeth,
 A phen na ffolai benyw,
 Calon iach, a chorph bach byw,
 Deuryw feddwl di orwag,
 A pharaus gof, a phwrs gwag,
 A lle i'm pen tan nennawr,
 Ryw fath, drichwe' llath uwch llawr.

V. YN NORTHOLT.

BYWYD YN NORTHOLT.

[At Richard Morris, Hyd. 7. 1755.]

SIN tad yr hwn wyt yn y Nafi,—Arhowch beth !
 nid oeddwn i'n meddwl am na phader na
 chredo, ond meddwl yr oeddwn eich clywed yn
 son y byddai dda gennych gael offrm o gywion
 colomenod : a chan na feddwn nag oen na
 myn gafr, mi a'u gyrrais ichwi 'n anrheg, o'r
 gorau oedd ar fy llaw, a phoed teilwng gennych
 eu derbyn. Eu nifer yw chwech ; ac yr wyf yn
 lled ofni y cyst ichwi dalu i *borler* am eu cludo ar
 ei ysbawd o Holborn hyd atoch : ond am y
 cerbydwr, mi dalaf i iddo. Os digwydd ichwi
 weled y Llew, chwi ellwch ddywedyd wrtho yn
 hydr ddigon, nad â na phregeth na phregow-
 then yn mlaen yma nes darfod Cywydd Llwydlo ;
 fod y Lladin agos yn barod ar y mesur a elwir y
Sapphic ; a'm bod yn dra anewyllysgar i'r Gym-
 raeg fod yn *Gywydd Deuair Hirion*, canys mai
 hwnnw yw 'r mesur atgasaf oll, a rhigwm diflas
 ydyw, fal y gwyddoch chwi a phawb agos.
 Beth meddech am *Gywydd Llosgwrn*, yr hwn sydd
 yn union yr un ddull a *Sapphic* ? Eto bid ewylls
 y Llew ar y ddaear, megis y mae (weithiau) o
 dan y ddaear. Ond chwedl yn eich clust. Dyma
 guro wrth fy nws i am hanner blwyddyn o
 dreth y goleuad, a chwarter o *poor's a church*
rate. 'Rwy 'n dyall rhaid talu neu wrido tua
 Dywillun nesaf ; pa beth a wneir ? Ni ddaeth
 mo'r dydd tâl eto hyd yma. A allech estyn o
 ugain swllt i ddeg ar hugain, mewn tipyn o barsel
 hyd yn Southall ? ac onide, Duw a wŷr, rhaid

gofyn ced gan ddyethriaid. Mae gennyfychydig tan yr ewin, gwir yw; ond pa fodd y prynir pytatws heb ddimeiau? Pan ddelo Mr. Tâl yma, mi a'i hebryngaf hyd atoch gydag anerch. Gofynwch i Siôn Owen pa bryd y daw i'm hymweled? Mi gefais hanes y llyfrau a gobeithio eu bod bellach hanner y ffordd i Lundain. Fy ngwasanaeth at bawb a'm carant, a chwi yn y blaenaf.

Oddi wrth eich bachgen a'ch bardd,

GORONWY DDU.

Ond gwrandewch eto. Mae'r delyn o Bentre Eirianell? Dyma Robert, er pan glybu son am dani, wedi troi'r llall heibio; ac yn dywedyd fod yn o fustlaidd ganddo ganu telyn bapur. Yr oedd yn dra hoff ganddo o'r blaen; ond weithion mae'n *how* ganddo'i gweled, ac ni chair mono ati o hyd pigfforch a rhaff rawn, mwy na Dafydd ap Gwilym gynt ar y delyn ledr. Da iawn gan y llanc delyn, ond nid telyn bapur. Telyn *like that he saw in Wales* (i.e. at Pentre Eirianell) a fyn y dyn. Ac os fi fydd byw fe gaiff ddysgu ei chanu hefyd; oblegid—

"Telyn i bob dyn doniawl,—difaswedd
Ydoedd fiwsig nefawl."

"Wele hai!" meddwch, "ai o'r hwyl yr aeth y dyn? I ba beth y mae yn rhoi negeseuon arnaf?" Byddwch amyneddgar, da chwi. Ni chlywsoch hanner y negeseuon eto. Os chwi fyth ystig, ni bydd arnoch byth brinder swyddau tra bywfi o fewn hyd pigfforch atoch.

(*At William Morris, Rhag. 29, 1755.*)

YR wyf yn byw mewn lle, fal y gwelsoch, a elwir Northolt, yn offeiriad o dan y Dr. Nicolls, Meistr y Deml (Master of the Temple), yn Llundain. Mae yn rhoi i mi ddeg punt a deugain yn y flwyddyn. Lle digon esmwyth ydyw'r lle, am nad oes gennyf ond un bregeth bob Sul, na dim ond wyth neu naw o ddyddiau gwylion i'w cadw trwy'r flwyddyn. A chan nad yw'r plwyf onid bychan, nid yw pob ran o'i ddyledswydd ond bychan bach. Am hynny mwyaf fyth a gaf o amser i ysgrifenu i'm Cymdeithas a phrydyddu, &c., yr hyn hefyd a ddechreuais er ys ennyd, er na chânt hwy weled dim nes ei berffeithio.

Yr wyf yn awr yn prysur astudio Gwyddeleg ac yn ei chymharu â'r Gymraeg, ei mam; ac, yn mhell y bwyf, ond yw agos yn rhyfedd gennyf na ddeallam ni bob Gwyddel a ddoe o'r Iwerddon; ond gormod o dro sydd yn eu tafodau hwy wrth arfer ag iaith yr Ellmyn gynt; nid Saesneg ond High German; canys dywedent hwy a fynnon't yn nghylch eu gwreiddyn, a dygont eu tadau o Yspaen, Milesia, Gwlad Roeg, neu 'r Aipht, neu 'r man y mynnont, nid ynt ond cymysg o Ellmyn a Brython—yn eu hiaith o'r lleiaf. Mi dybiais gan waith gynt fod yr Wyddelig yn famiaith, ond camgymeriad oedd hyny, fel y dangosaf, os byddaf byw.

Mae yma yn fy nghymydogoeth ddyn penigamp o arddwr o'n gwlad, un a adwaenech yn dda gynt, a'i enw Owen Williams; ond "Adda" yr ydywif fi ambell dro yn ei alw. Mi a'i gwelais ddoe, ac yr oedd yn dymuno ei wasanaeth atoch. Gan fod gennyf ardd, o'r oreu o ran tir, mi fum yn

cethru arno yn dost am ychydig hadau a gwreidd-
 iach i'w haddurno: ond nis medrodd gael imi
 yleni oddi ar ddyrnaid o *snow-drops* a *chrocus*,
 oblegid y mae'n achwyn yn dost nad oes na had
 na gwraidd i'w cael tiwy deg na hagr gan
 waethed a fu'r hin i'w cynhafu. Ni wn i beth
 a geir y flwyddyn nesaf. Lle iachus digon yw 'r
 lle hwn, ac yn dygymod yn burion â mi ac â'm
 holl deulu. Os byddwch faddeugar am a aeth
 heibio, ac mor fwyn a gyrru hyd bys o lythyr,
 llwybreiddwch effel hyn:—"To me, at Northolt,
 near Southall, Middlesex, per London."

CYWYDD Y GWAHAWDD.

ADDRESSED TO MR. WILLIAM PARRY, DEPUTY-
 COMPTROLLER OF THE ROYAL MINT.

PARRI, sy nghyfaill puraf,
 Dyn wyt a garodd Duw Naf;
 A gŵr wyt, y mwynwr mau,
 Gwir fwyn a garaf innau.
 A thi 'n Llundain, wr cain eu,
 Ond gwirion iawn dy garu?
 Ond tost y didoliad hwn?
 Gorau fai pe na'th garwn.
 Dithau ni fynni deithiaw
 O dref hyd yn Northol draw,
 I gael cân—beth diddanach?
 A rhodio gardd y bardd bach;
 Ond dy swydd hyd y flwyddyn
 Yw troi o gylch y Twr Gwyn,
 A thorri, bathu arian,
 Sylltau a dimeiau mân.

Dod i'th Fint, na fydd grintach,
 Wyliau am fis, Wilym fach ;
 Dyfydd o fangre 'r dufwg ;
 Gad, er nef, y dref a'i drwg.
 Dyred, er daed arian,
 Ac, os gwnai, ti a gai gân ;
 Diod o ddwr, doed a ddêl ;
 A chywydd ; ac iach awel ;
 A chroeso calon onest,
 Ddiddichell ;—pa raid gwell gwest ?
 Addawaf—pam na ddeui ?—
 Ychwaneg, ddyn teg, i ti :
 Ceir profi cwrw prifardd,
 A 'mgomio wrth rodio'r ardd ;
 Cawn nodi, o'n cain adail,
 Gwyrth Duw mewn rhagorwaith dail ;
 A diau pob blodeuyn
 A yspys ddengys i ddyn
 Ddirfawr ddyfnderoedd arfaeth
 Diegwan lor, Duw a'i gwnaeth.
 Blodau 'n aurdeganau gant,
 Rhai gwynion mawr ogoniant.
 Hardded wyt ti, 'r lili lân,
 Lliw 'r eira, uwch llaw 'r arian !
 Cofier it guro cyfoeth
 Selyf, y sidanbryf doeth.

Llyna, fy nghyfaill anwyl,
 Ddifai gwers i ddof a gwyl.
 Diffwrwyth sân flodau 'r dyffryn
 A dawl wag orfoledd dyn.
 Hafal blodeuyn hefyd
 I'n hoen fer yn hyn o fyd.
 Hyddestl blodeuyn heddyw,
 Y foru oll yn farw wyw.

Diwedd sydd i flodeuyn,
 Ac unwedd fydd diwedd dyn.
 Gnawd i ardd, ped fai 'r harddaf,
 Edwi 'n ol diboeni haf.
 Tyred rhag troad y rhod ;
 Henu mae'r blodau hynod.
 Er passio'r ddau gynhauaf,
 Mae 'r hin fal ardymyr haf !
 A'r ardd yn o hardd ddi haint,
 A'r hin yn trechu'r henaint,
 A'i gwyrddail yn deg irdda
 Eto ; ond heneiddio wna.
 Mae'n gwywo, 'min y gauaf,
 Y rhos a holl falchder haf.
 Y rhos, heneiddiodd y rhain,
 A henu wnawn ni 'n hunain.
 Ond cyn bedd dyma 'ngweddi,
 " Amen," dywed gyda mi,
 Dybid in' ddyddiau diboen
 A dihaint henaint o hoen ;
 Mynd yn ol, cyn marwolaeth,
 I Fon, ein cysefin faeth.
 Diddan a fyddo'n dyddiau
 Yn unol, ddiddidol ddau ;
 A'r dydd, Duw ro amser da,
 Y derfydd ein cyd yrfa,
 CRIST yn nef a'n cartrefo,
 Wyn fyd ! a phoed hynny fo.

CYWYDD I DDIAFOL.

[At Richard Morris, Mai 20, 1756.]

Y^N peth, os rhaid cyfaddef, sydd i'm digaloni yn gethin, sef, na chlywais o Allt Fadawg oddi wrth Y Llew na 'i nai. Rhyfedd na chlywid oddi wrth Ieuan Owain, Fwynwr, os yw 'n fyw. Am y Llew, yr wyf agos a chanu 'n iach iddo; oblegyd fod lle i ofni ei fod wedi digio tros byth bythoedd, o ran na chefais gantho ond sen y llythyr diweddfaf byth a welais oddi wrtho. Y mater sydd fal hyn, a mater garw yw hefyd. Digwydd a wnaeth i'r Llew ddal sylw arnaf yn ysmocio fy nghetyrn yn nghyfarfod y Cymrodorion, ac utrh oedd gantho weled y Bardd fal "iar mewn mwg, a'r niwl gwyn yn droellau o amgylch ei ben, *like a glory in a picture*"—dyna 'i air; "ond am Ffoulks, &c., nid oedd ryfedd gantho." Yr oedd yn taeru yr un amser fy mod wedi hanner grapio; ac yn wir mae 'n atgof gennyf yfed o honof ran o phialaid o *bwins* yn nhy y câr H. Prys cyn dyfod yno. Ond gadewch i hynny fod, nid aml y bydd y gwendid hwnnw arnaf (goreu fyth po 'r anamlaf), a diau yw, fod maddeuant i fwy troseddau na hynny, er ei gymmaint. Sen iachus er fy lles i oedd y sen; a diolchgar ydwyf am dani. Ond eto nid arwydd da ar neb fod yn anfaddeugar. Nis gwn i achos arall yn y byd iddo ddigio a bod mor dyn. Mae gennyf yma yn fy ymyl brophwydoliaeth a "sgrifenwyd cyn" gweled o honof Lundain erioed, sy 'n dywedyd, "Mai os fi, pan ddeuwn yna, a fethwn yn yr hyn lleiaf ddal y ddysgl yn wastad i'r Llew, na wnai ond fy nirmygu a'm cablu a'm coegi, ar air a gweithred byth, heb

obaith na chymod, na hawddgarwch, na mwyn-
der, yn oes oesoedd, Amen."

Am gân Arwyrain y Cyw Arglwydd, ni thybiais
fod neb yn absen y Llew a'i cyflwynai i wneuthur
dim lles â hi, oblegid fod y Llew wedi bod o'r
blaen yn son am danaf wrth yr Iarll, yr hyn na bu
neb arall ar a wy'dwn i; ac odid y cofiai yr Iarll
mai fi y crybwyllasai 'r Llew wrtho, oni bai iddo
fo ei hun ei chyflwyno a dwyn ar gof i yr Iarll yr
ymgom a suasai yn fy nghylch. Mae hi eto heb
ei llawn orffen yn Gymraeg; ond bellach ati hi
yn nerth braich ac ysgwydd. Ond yn y cyfamser
dyma ichwi ryw erthyl o Gywydd tra bo 'ch yn
aros am dani li:—

CYWYDD I DDIAFOL.

DIAFOL, arglwydd dufwg,
Ti du ei drem, tad y drwg,
Hen Suddas, atgas utgi,
Gelyn enaid dyn wyt ti.
Nid adwaen—yspryd ydwyt—
Dy lun, namyn mai diawl wyt;
Od wyt hyll, ys erchyll son
Am danat y mae dynion,
A lluniau erchyll wyneb,
A chyrrn it' na charai neb;
Yn nghyrrau 'th siol anghywraint
Clustiau mul—clywaist eu maint;
Ac aeg fel camog olwyn;
Hychaidd, anfedrusaidd drwyn;
A'th dduryn oedd, waith arall,
Fal trwyn yr âb, fab y fall;
A sgyffant rheibus gwefflawr,
Llawn dannedd og miniog mawr;

Camog o ên fel cimwch ;
 Barf a gait fel ped fait fwch ;
 A'th esgyll i'th ddwy ysgwydd,
 Crefyll cyd ag esgyll gŵydd ;
 Palfau 'n gigweiniau gwynias
 Deng ewin ry gethin gas ;
 A'th rumen, anferth rwmwth,
 Fal cetog was rhefrog rhwth.
 Wfft mor gethin y din dau !
 Ffei o lun y ffolennau !
 Pedrain arth—pydru a wnel—
 A chynffon fwbach henffel ;
 Llosgwrn o'th ol yn llusgo,
 Rhwng dy ddau swrn llosgwrn o ;
 A gwrthrych, tinffyrch tanffagl
 Ceimion, wrth dy gynffon gagl,
 A charnau 'n lle sodlau sydd,
 Gidwm, is law d' egwydydd,
 Er na nodawdd, o nawdd Naf,
 Nemor un y mawr anaf.
 Dyna 'th bortreiad anwiw,
 Anffurfiawg ddelw, leuawg liw.
 Rhyw erthyl wyt rhy wrthun ;
 Diawl wyt os cywir dy lun.

Y mae, os hwn ym mai sydd,
 Lle i nodi truth lluniedydd :
 Gwir ydyw rhai a gredynt
 Yt' ddwrddio Angelo gynt ;
 Sorri am i hurtni hwn
 Ddiwyno mawredd Annwn,
 A thyrchu fyth o'r achos
 Hyn a wnaï 'n nydd yn y nos,
 Nes gwneuthur parch, wrth d' arch di,
 Satan, a llun tlws iti.

Minnau, poed fel y mynnych
 Dy lun, ai gwrthun ai gwych,
 Rhof it' gyngor rhagorawl,
 Na ddyd nemawr un i ddiawl.

Gŵr y sy, gwae yr oes hon,
 Blaenawr yr holl rai blinion,
 Ac yna daw drwy 'th gennad,
 Yna rhuthr, onide, 'n rhad ;
 Canys hyn a fyn fo,
 Lewddyn, pwy faidd ei luddio ?
 Gŵr cestog yw'r taerog tost,
 Dinam ti a'i hadwaenost ?
 A pha raid nod a phryd neb ?
 Annwn ni dderbyn wyneb ;
 A godlawd yw coeg edliw
 I'r un ddim o'i lun a'i liw ;
 Digon o chaid honaid hau,
 Gostog ryw faint o'i gastiau.

Dyn yw ond heb un dawn iach,
 Herwr ni bu ddihirach ;
 Gŵr o gynneddf anneddfawl ;
 Lledfegyn rhwng dyn a diawl :
 Rhuo gan wŷn, rhegi wna,
 A *damio* 'r holl fyd yma ;
 Dylaith i bawb lle delo.
 Llawn i bawb lle na bo ;
 Ofnid ef fel Duw netawl,
 Ofnid ef yn fwy na diawl ;
 Cofier nad oes neb cyfuch ;
 Nid oes radd nad yw SYR uwch.

Marchog oedd ef, merchyg ddiawl,
 Gorddwy, nid marchog urddawl.

Marchog gormail, cribddail, cred,
Marchog y gwŷr a'r merched.

Nis dorai, was diarab,
Na chrefydd, na ffydd, na Phab.
Cod arian y cyw diras
Yw crefydd y cybydd cas ;
A'i oreudduw oedd ruddaur
A'i enaid oedd dyrnaid aur ;
A'i fwnai yw nef, wiwnod ;
A'i Grist yw ei gist a'i god ;
A'i eglwys a'i holl oglud,
Cell yr aur a'r gloywaur glud ;
A'i ddu bwrs oedd ei berson,
A mwynhad ddegwm yn hon :
A'i brif bechod yw tlodi—
Pob tlawd sydd gydfrawd i gi—
A'i burdan ym mhob ardal,
Yw gwario mwn ac aur mâl,
A'i uffern eithaf aphwys,
Rhoi ei aur mân gloywlan, glwys.

Dyna yt, Suddas dânwr,
Un neu ddau o gastiau 'r gŵr ;
Rhyw swrn o'r rhai sydd arnaw,
Nid cyfan na 'i draian draw.
Os fy nghyngor a ddori,
Gyr yn ol y gŵr i ni.
Nid oes modd it' ei oddef ;
Am hyn na 'mganlyn ag ef.
Nid oes i'r diawl, bydawl bwyll
Ddiawl gennyt a ddeil ganwyll.
Yna os daw, nos a dydd,
Gwelwch bob drwg bwygilydd ;
Diflin yw, o chaid aflwydd,
I drin ei gysefin swydd ;


Gyr byth â phob gair o'i ben
 Dripharth o'th ddiefl bendraphen.
 Ac od oes yna gwd aur,
 Mâl annwn er melynaur.
 O gwr ffwrn dal graff arnaw —
 Trwyadl oedd troad ei law—
 A'r lle dêl gochel ei gern,
 Cau ystwffwl gist uffern ;
 Gyr i ffordd oddiwrth d' orddrws,
 A chur o draw, a chau'r drws ;
 A chrwydryn o chair adref,
 Afreidiawl un diawl ond ef.

A glywch chwithau 'r gŵr bonheddig? Yr ych yn cwyno i'r peswch ac yn dwrddio myned i ryw le i'r wlad i roi tro. Pa waeth ynteu fyddai ichwi yma na lle arall? Chwi gaech groeso calon i'r peth sydd yma, a diolch mawr am eich cymdeithas. Chwi gaech wely rhwydd esmwyth a dillad glân tymhoraid, ond heb ddim *curtains*; a chwi ellech wneyd eich ystafell cyn dywyllled a'r fagddu, os mynnech. Chwi gaech ymbell foliad o bastau colomenod ar droau, ac ymgomio gyda'r Doctor weithiau, os gwelwch yn dda. A chymerwch hyn yn lle gwahawdd, neu beidiwch.

Dyma'r llythyr y talasoch am dano wyth geiniog wedi ei gael. Mae'n dyfod oddiwrth Robert Owen, gŵr fy modryb Agnes Gronow, ac yn rhoi hanes o ryw heldrin rhwng Proctorion Llanfair a fy ewythr Robert Gronow, yn ngyloch yr hen dŷ lle ganed fy nhad, a'm taid, a'm hendaid, a'm gorhendaid, etc.; a phed fawn yno, myfi a rown ben ar yr ymryson, oblegid fi y piau'r ty, a'r gerddi, ac oll sy'n perthyn iddo, er



"Dyma'th bortreiaid aniw." II. 21.



na waeth gennyf mo'r llawer pe cai'r cigfrain ef; ond gwella fyddai gennyf i rai o'm gwaed ei gael nag estron genedl, yn enwedig y Deiniols ffeilion. Ond yw ddigon i'r Panningtons fod wedi llygru'n cenedl trwy ymgytharu ac ymgyfath-rachu â phob cainc agos o honi? a fynnent fwrw'r unig gyw digymysg, diledryw, tros y nyth? Mi fynnaf weled hynny, ac a fynnaf wybod beth a dalo fy hawl i'r lle, ped fai ond cut mochyn. Nid rhaid ond rhoi'r peth yn llwyr, yn gywir, ac yn eglur, o flaen y Dr. Nicolls, ac fe geir ateb yn rhad o'r Deml gan wŷr a wŷr bob cruglyn o'r gyfraith. Ni fu erioed osod nag ernes ar y lle yn amser tad na thaid neb sy'n fyw heddyw, na thaledigaeth am dano, onid pedwar swllt a chwe cheiniog i Eglwys Llanfair bob blwyddyn; ac fe dâl y lle deirpunt, o'r lleiaf, yn ol y prisiau sydd yn Môn. Pwy piau bob *commons* yn Môn? Nid yr Eglwys mae'n debyg. Wele, hai! dyma lythyr oddi wrth y brawd Owen ap Owen o Groes Oswallt, yn dywedyd farw fy mam yng nghyfraith. Mi gaf y grasbib yn dyhuddo'r wraig Elin am ei mam. Bellach fe geir gweled a gywirodd fy hen chwegr ei geiriau. Hi fyddai'n addaw y caid ryw rombreth o bethau pan fyddai hi farw; ond yr wyf yn tybio nad oedd yn ei bryd y pryd hynny farw byth. Mae ystad y Brithdir yng Nglyn Ceiriog a addawodd i Robyn? Dyna ichwi gymmaint o newydd a marw gwrach, ond nid wyf fi yn disgwyl cymaint a grôt oddi wrthi.

CYWYDD Y CYW ARGLWYDD.

[At Richard Morris, Mai 28, 1756.]

CYWYDD AR ENEDIGAETH SIOR HERBERT, ARGLWYDD
LLWDLO, CYNTAFANEDIG FAB ARDDERCHOG IARLL POWYS,
1756.

MOES erddigan a chanu,
 Dwg in' gerdd deg, Awen gu ;
 Trwy 'r dolydd taro 'r delyn,
 Oni bo 'r ias yn y bryn,
 O gywair dant, a gyr di
 Awr orhoen i Eryri.

Dowch chwithau â'ch hymnau heirdd,
 Ddiwair addfwyn Dderwyddfeirdd ;
 Ni cherdd a foliannoch chwi
 Dir angof, er ei drengi ;
 Prydyddwch, wŷr per diddan,
 Anfarwol, ragorol gân ;
 Fal y cân Corybantau
 Y dydd pan y ganed Iau ;
 Hawdd fodd i'w ddyhuddo fu
 O waith beirdd a thabyrddu.
 Ganed i ninnau gynnewr,
 Un a haedd gân, maban mawr.

Ein tynged pan ddywedynt,
 Bu wirdda gair y beirdd gynt ;
 Coeliaf, o ddynfder calon,
 Am yr oes aur eu mawr sôn.

Cynnydd, y maban ceinwiw,
 Hil mawrion, wŷr gwychion gwiw !
 Cynnydd, fachgen ! Gwên gunod
 I mi 'n dâl am Awen dod.

Croesaw 'm myd hefyd i ti,
 Tirionwaed da rieni ;

Gwrda fych, fal eich gwirdad,
 A gwych y delych chwi 'n dad
 A phoed i'w taid gofleidiaw
 Eich meibion llon ymhob llaw
 Ac yno boed rhwng gwiwnef
 Gyd ddal y gofal ag ef.

Dengys, yn oed ieuangwr
 Tra fych, a wnelych yn wr,
 Ac ym mysg pob dysg y daw
 Gweithred odidog athraw.
 Os o hedd melyn a hir
 Lwyddiant y'ch gorfoleddir,
 Neu os eirf iwch a wna son
 A siarad yn oes wyrion,
 Gwelwch yn ol eich galwad,
 Les dysg gan ofalus dad,
 I ddilyn ffordd ydd elynt
 Herbeirtion gwaywgochion gyn
 O deg irdwf haf gwyrda,
 A gnawd oedd, o egin da.
 Nid oes gel o'n disgwyliad
 O'th achles a'th les i'th wlad.

Drwy ba orfod y codi—
 Dylid aer gan dy law di—
 Pa esgar? pwy a wasgud?
 Pwy wyra d' eirf? pa ryw dud?
 Duw wnel yt roi Ffrainc dan iau,
 Ciwdawd rylawn hocedau;
 Didwyll ar dafod ydyw,
 Uthr o dwyll ar weithred yw;
 Ciwed yw hon nas ceidw hedd,
 Dilys y ceiff ei dialedd.

Diau na ladd rhydain lew ;
 Adwyth i dylwyth dudew
 Annog bygylog elyn ;
 Afraid i Frytaniaid hyn.

Ai arwylion, oer alaeth,
 A fyn, giwed gyndyn gaeth ?
 Trychwaith a ddaw o'u trachwant ;
 Och o'r gwymp drachwerw a gânt.
 I'w llynges pond gwel angor
 Na llu i ormesu 'r môr ?
 Dan ddwylaw Prydain ddilorf
 Pa les a wna 'u diles dorf ?
 Torf yn ffwyr gynt a wyrodd,
 Torf anhy a fly, a ffoedd,
 Ac a dâl â gwaed eilwaith
 Ffrydiawg, am eu geuawg waith.

Os Sior, oreubor o rym
 R, felwr, ac eirf Wilym,
 A âd ddim i'r do a ddaw
 Deled bri Ffrainc i'ch dwylaw ;
 A deled—Duw a iolaf—
 I chwi fyd hawdd a nawdd Naf :
 Er Iesu, hir yr oesoch
 Wellwell yn eich Castell Coch !
 Ac yno cewch deg ennyd
 I orphwys o bwys y byd,
 I swynhau llyfrau a llên,
 Diwyd fyfyrddod Awen ;
 Ac oni feth y gân fau,
 Syniwch a genais innau,
 Fardd dwyiaith, dilediaeth lin,
 Lledwael Gymraeg a Lladin.
 Trwy bau syw tir Bowys hen
 Hyfryd, tra rheto Hafren.

Ac yno tra bo trwy barch
 Llin Herbert yn llawn hirbarch,
 Yr erys eich arwyrain
 I'w ganu trwy Gymry gain.

Northolt, Mai 28, 1756.

TAD,—A welwch chwi bellach beth yw taro diogi ar draws ei ddannedd? Dyna chwi Ganiad Llwydlo o'r diwedd, a gwnewch yn fawr o honi, os haeddai, neu beidiwch. Ond gwych y mae'r hin hafaidd, araul, fendigaid hon yn dygymmod â'r Awen? Ni feiddiai 'r druanes gymaint a dangos ei phig allan o'r blaen, pan oedd yr hin yn oer; ond weithion gwych ganddi ymdorheulo yn yr ardd neu ryw laslwyn ireidd-lwys yn y maes, hyd oni bo 'r tes ysblenydd yn ei gwefrio, a hithau 'n canu Gwrnan Goronwy, hyd oni sereno ei llygaid.

Y DU O FON.

CYWYDD Y CRYFION BYD.

Dwy fal doethion farddoni,
 Neu pa faint na wypwyf fi?
 Os hylon a fu Selef,
 Mi a wn gamp mwy nac ef;
 Dwys yw 'r hawl diau sy rh'om,
 Bernwch uniondeb arnom;
 Mynnwn gael dadl am ennyd,
 A barn yn nghylch Cryfion Byd.

Tri chryf i Selyf y sydd,
 Ie diriaid bedwerydd:

Gwiddon eiddilon ddwylaw,
 A llem pob ewin o'i llaw ;
 Blaenau cigweiniau gwynias,
 Blaen llymion rhy greision gras.
 Er eiddiled yw 'r ddwylaw,
 Ni bu henwrach drymach draw ;
 Trom iawn a thra ysgawn yw,
 Gwrthdd'weddiad rhy gerth ydyw.
 Och ! anaf yw ei chynnwys ;
 O ffei ! mi a wn ei phwys.
 Beth yw Llew tan ei ffreyll ?
 Nis ofna hon ei safn hyll.
 Beth yw nerth a phrydferthwch ?
 Neu beth yw Milgi na Bwch ?
 Os hwnt ymddengys hi,
 Truan nerth un teyrn wrthi ;
 Tyr dyrrau, caerog cerrig,
 Yn deilch lle 'r enynno 'i dig.
 Anghynnes ddiawles ddileddf,
 Ni erbyd hi dorri deddf.
 Hi ferchyg, ddihafarchwaith,
 Hen gwan ; pand dihoen ei gwaith ?
 Gnawd gwraich yn trotian tani ;
 Gwae hen a farchogo hi !
 Ni rydd—mae 'n g'wilydd ei gwaith—
 Wilog afrwydd le i gyfraith.
 Dir y myn, pand oer i mi ?
 Gloff arthes, gael ei phorthi.
 Ac ni ddiylch, gne dduwg,
 Un mymryn i'r dyn a'i dwg.

O chawn nerth a chynorthwy,
 Ni ddygwn 'y mhwn ddim hwy ;
 Mor fall oedd, mawr yw fy llid
 Hirlawn i gael ei herlid ;





TLODI.

“Oehaf, ond ni henwaf hi.” II. 33.

Tynnu'r Awen o'm genau,
 A'i dwyn hwnt o dan ei hiau!
 Ochaf—mae 'n amlwg ichwi—
 Ochaf, ond ni henwaf hi;
 Hawdd ei gwamal ddyfalu,
 Poen yw ei dwyn, y pwn du!
 Trom iawn yw; ond, tra myn Naf,
 Yn ddigwyn hon a ddygaf.

MOLAWD MON.

[*At William Morris, Awst 16, 1756.*]

Y CAREDIG GYDWLADWR,—Mi gefais yr eiddoch o Ebrill y trydydd ar hugain, yn nghyd a chywydd gorchestol y Bardd Coch, a diolch ichwi am danynt. Yr ych chwi, ac felly 'r Llew yma hefyd, yn taeru fod yr hen Goch druan wedi rhyw led hurtio; ond erbyn ystyried ol a blaen, glew y gwelwn i yr hen Gorphyn. Nid oes ar y cywydd gamp yn y byd; ond y mae ynddo lai o eiriau segur nag a fyddai yn arferol o fod yn ei gywyddau; ie, ac yn nghywyddau gwŷr dysgedig a sorrent am eu henwi yr un dydd a'r hen Goch. Ac os rhwydd iddynt hwy hepian, ni fyddai rhyfeddod yn y byd i'r Coch drymgysgu a chwyrnu hefyd. Gwrda yr hen geiliog, meddaf i, dywed-wch chwi a fjnnech. Mae yma ateb gorchestol i'r hen ddyn wedi ei wneyd er ys ennyd; ond mae 'r Llew i'm rhwystro i'w yrru yna, ac onide yr oedd yn fawr fy mwriad i yrru atoch y tro yma. Dyma fal y mae y peth yn bod. Fi a wnaethwn gywydd o ddeucant o linellau neu ychwaneg, a'i

ddechreu ydoedd ateb i'r Coch; a hynny yn nghyd a ddeugain neu ddeg a deugain; ac oddi allan yr oedd mawl i Ynys Fon, a chofrestr o'r beirdd hynotaf a fagwyd ynddi gynt, a dysgrifiad prydfferth o'r wlad a'i hamryw doreithiau; megis anifeiliaid, pysg, adar, yd, caws, gwlan, mwyn, a chan peth cyffelyb. Mi yrrais y cywydd i'r Llew, ac yntef a yrrodd attaf ddoe fal hyn:—

"It is a pity your *Cywydd Mon* did not stand upon its own bottom without being tacked to such a worthless piece as that of Bardd Coch's. The man meant well, but it is the worst thing he ever wrote. But whatever it is, this excellent description of yours of the island should not be read the same day with it, for it is too like feeding a man with stinking meat the first dish, and the second with fresh ortolans."

Felly chwi welwch fal y mae; fe gyst gwahanu y cywydd yn ddwy ran; y gyntaf yn bwt byr o ateb i'r Coch o'r Foel; a'r ail yn glamp o 'Gywydd Mawl Mon,' a bid sicr ichwi y ddau y tro nesaf. Ie, meddwch chwithau, pa bryd a fydd hynny? Fy ateb yw: Na ewch i ymbel ac ymliw â mi, am fy niogi; canys os diog fi, mi wn pa le mae imi gymar, a moeswch yma eich llaw hyd at yr arddwrn. Ond chwi a'i cewch pan atebwch hwn, ac nid cynt.

CYWYDD ATEB I ANNERCH HUW AP HUW, Y BARDD O
LWYDIARTH-ESGOB, YM MON.

[1756.]

DARLLENNAIS awdl dra llawn serch,
Wych enwog fardd o'ch annerch;
A didawl eich mawl im' oedd—
Didawl a gormod ydoedd.

in excess out.

nodus > hodd; gormod
complex
pennedus; profed.

Molawd Mon.

35

*Ar gnat = to be known
cognate = I know*

Ond gnawd mawl bythawl lle bo,
 Rhyddaf i'r gŵr a'i haeddo.
 Odidog mi nid ydwyf,
 Rhyw sal un, rhy isel wyf.
 Duw a'm gwnaeth, da im' y gwnel,
 Glân Iesu, galon isel,
 Ac ufudd fron, dirion Dad,
 Ni oludd fy nwy alwad ; *90 + ludd*
 O farddwaith od wyf urddawl,
 Poed i wau emynau mawl—
 Emynau 'n dal am einioes
 Ac Awe'r i'r Rhen a'u rhoes.
 Gwae ddiles gywyddoliaeth,
 Gwae fydd o'i Awenydd waeth !
 Deg Ion, os gweinidog wyf,
 Digwl y gweinidogwyf.
 Os mawredd yw coledd cail,
 Bagad gofalon bugail,
 Ateb a fydd rhyw ddydd rhaid
 I'r Ion am lawer enaid.
 I atebol nid diboen ;
 Od oes barch, dwys yw y boen ;
 Erglyw a chymorth, Arglwydd,
 Fy mharchus, arswydus swydd.
 Cofier, ar ol pob cyfarch,
 Nad i ddyn y perthyn parch ;
 Nid yw neb ddim ond o nawdd
 Y dinam Ion a'i doniawdd.
 Tra'n parcher trwy ein perchen,
 O cheir parch, diolch i'r Pen ;
 Ein Perchen iawn y parcher ;
 Pa glod sŷ'n ormod i Ner ?
 Parched pob byw ei orchwyl,
 Heb gellwair â'i air a'i wyl,

odid (rare) + eg.
(ratia) unawdd
unf. hawdd
niel
gnawd
90 + ludd
owdd
awp. ywll
gwyf

L. altamius

A dynion ei dŷ anedd
 A'i allawr ; Ior mawr a'u medd.
 Dyna'r parch oll a archaf
 Duw Ion a'i gŵyr, dyna gaf.
 Deled i'm Ior barch dilyth ;
 Ond na boed i un dyn byth
 Nag eiddun mwy na goddef,
 Tra pharcher ein Ner o nef.
 Gwae rodres gwŷr rhy hydron ! *amogant*
 Gwae leidr a eirch glod yr Ion !
see page Gocheler, lle clywer clod,
 Llaw 'n taro lleu-haint Herod.

Ond am Fon hardd dirion deg,
 Gain dudwedd, fam Gwyndodeg, *up hon see page*
 Achos nid oes i ochi,
 Wlad hael, o 'madael â mi.
 Cerais fy ngwlad geinfad gu—
 Cerais, ond ofer caru !
 Dilys Duw yw'n Didolydd :
 Mawl iddo ! a fyno fydd.
 Dywedded Ef na'm didol,
 Gair o'i nef a'm gyr yn ol.
 Disgwyl, a da y'm dysger,
 Yn araf a wnaf, fy Ner,
 Da ddyfydd Duw i ddoffon ;
 Disgwylied, na 'moded Mon ;
 Ac odid na cheiff gwedi
 Gan Ion Lewis Mon a mi ;
 Neu ddeuwr awen ddiell
 I ganu gwawd ugain gwell.
 Lewis Mon a Goronwy,
 Ni bu waeth gynt hebddynt hwy :
 A dilys na raid alaeth
 I Fon am ei meibion maeth ;

Nac achos poen nac ochi,
Na chwyn, tra parhach chwi.

Brodir gnawd ynddi brydydd;
Heb ganu ni bu, ni bydd.

Syllwch feirdd o Gaswallon

Law-hir, hyd ym Meilir Mon.

Mai Gwalchmai erfai eurfawr?

P' le mae einion o Fon fawr?

Mae Hywel ap Gwyddeles?

Pen prydydd, lluydd a lles,

Pen milwr, pwy un moliant?

Enwog wr ac un o gant,

Iawn genaw Owain Gwynedd,

Gwae 'n gwlad a fu gweinio 'i gledd.

Bwy unfraint â'r hen Benfras?

Gwae fe fyw, ei lyw a las.

Mae 'r Mab Cryg oedd fyg pan fu

Ab Gwilym yn bygylu?

Dau gydgwys, gymwys gymar,

Un wedd ag ychen yn âr.

Cafed ym Mon dduon ddau,

Un Robin, edlin odlau,

A Gronwy gerddgar union,

Brydydd o Benmynydd Mon.

Mae Alaw? Mae Caw? Mae cant?

Mae miloedd mwy eu moliant?

Pwy a rif dywod Llifon?

Pwy rydd i lawr wŷr mawr Mon?

Awenyddol iawn oeddynt

Yn gynnar, medd Ceisar gynt.

Adroddwch mae 'r derwyddion,

Urdd mawr, a fu 'n harddu Mon?

I'r bedd yr aethant o'r byd,

Och! alar heb ddychwelyd.

*honored emp
change*

prince, o' the

great prince

Lords

faulless. & famous.

benefactor

one offspring.

he killed his uncle

he killed his uncle

treacher

two hands well washed

all things

*"Inwardly by name
in heaven
they are for ever
long"*

Hapus yw Mon o'u hepil,
Ag o'r iawn had, gywrain hil.

Clywaf arial i'm calon
Am gwythi, grym ynni Mon—
Craffrym, fel cefallif cref-frwd
Uwch eigion, a'r fron yn frwd ;
Gorthaw don ; dig wrthyd wyf ;
Llifaint, distewch tra llefwyf :
Clyw, Fon, na bo goelion gau
Nag anwir fyth o'm genau ;
Gwiried Ion a egorwyf,
Dan Ner, canys Dewin wyf :

“ Henffych well, Fon, dirion dir,
Hyfrydwch pob rhyw frodir !
Goludog, ac ail Eden,
Dy sut, neu Baradwys hen ;
Gwiwddestl y'th gynysgaeddwyd,
Hoffder Duw Ner a dyn wyd ;
Mirain wyt ym mysg moroedd,
A'r dŵr yn gan tŵr it' oedd,
Eistedd ar orsedd eursail
Yr wyd, ac ni welir ail ;
Ac euraid wyt bob goror,
Arglwyddes a meistres môr.
Gwrth y rhod trwod y traidd,
Ynysig unbenesaidd.

Nid oes hefyd, byd a'i barn,
Gydwedd yt', Ynys Gadarn,
Am wychder, llawnder, a lles.
Mwnai 'mhob cwr o'th mynwes ;
Dyffrynoedd, glynnoedd, glannau ;
Pop peth yn y toreth tau :
Bara a chaws, bir a chig,
Pysg, adar, pob pasgedig.

*pp. Pwllgwyn
equal
fawr
& fawr
comp by fawr*

comp miracle

wonderful

*L. v. l. v. l.
unwield*

virtus

money

Ally gan Daf yn
Aurill.

Molawd Mon.


39

Dy feichiog, ddeiliog ddolydd
Ffrwythlon, megis Saron, sydd;
A phrennau dy ddyffrynoedd,
Crwm lwyth, megis Carmel oedd.

O mor dirion, y Fon fau, *Sain. i.*
Dillad dy ddiadellau. *Arrows*
Cneifion dy dda gwynion gant, *Sain. iv*
Llydain, a'th hardd ddilladant. *Arrows. ii*
Dawnus wyt, dien ei sail, *Arrows. i.*
Prydferth heb neb ryw adfail; *Arrows. ii*
A thudwedd bendith ydwyf; *Arrows*
Mawl dy Ner, aml ei dawn wyt. *Arrows*
Os ti a fawl nefawl Ner, *Sain*
Dilys y'th felys foler; *Sain.*
Dawnol fydd pawb o'th dynion, *Arrows Fantaith*
A gwynfyd ym myd fydd Mon. *Arrows o Gywllon*
Dy eglwyswyr, deg loywsaint,
A'th leygion yn swynion saint, *Arrows*
Cryfion yn ffrwythau crefydd
Fyddant, a diffuant fydd.
Yn lle malais, trais, traha,
Byddi 'n llawn o bob dawn da,
Purfydd a chariad perffaith—
Ffydd, yn lle cant malchwant maith.
Yn lle aflwydd, tramgwydd trwch,
Digon o bob rhyw degwch,
Undeb, a phob rhyw iawnder,
Caru, gogoneddu Ner;
Dy enw a fydd, da iawn fod,
NEF FECHAN y Naf uchod.
Rhifir di 'n glodfawr hefyd
Ar gyhoedd gan bobloedd byd;
Ac o ran maint, braint, a bri,
Rhyfeddod hir a fyddi."


Bellach f yspryd a ballawdd ;
 Mi 'th archaf i Naf a'i nawdd.
 Gwilia rhag ofergoelion
 Rhagrith, er fy mendith, Mon.
 Poed yt' hedd pan orweddyf
 Ym mron llawr estron, lle 'r wyf.
 Gwae fi na chawn enwi nod,
 Ardd wen, i orwedd ynod.
 Pan ganer trwmp Ion gwiwnef,
 Pan gasgler holl nifer nef,
 Pan fo Mon a'i thirionwch
 O wres fflam yn ceirias fflwch, *what's her*
 A'i thorrog wythi arian, *rich*
 A'i phlwm a'i dur, yn fflam dân,
 Pa les cael lloches o'r laid ;
 Duw ranno dŷ i'r enaid,
 Gwiw gannaid dŷ ogoniant,
 Yn nghaer y ser, yn nghor sant
 Ac yno 'n llafar ganu,
 Eirian eu cerdd i'r Ion cu,
 Poed gwŷr Mon a Goronwy,
 Heb allael ymadael mwy ; *comp gadael : gadael*
 Cyd uned a llefed llu
 Monwysion, ' Amen, Iesu !'

full gloss.



Ynys Mon.

"Dy feichiog ddolgydd
Ffrwythlon, megis Saron sydd." II. 39.



COLLI TYMER.

[At Richard Morris, Medi 27, 1756.]

AM eich llyfrau chwi a fenthycais chwi a'u
cewch pan fynnoch. Ni bum erioed ar
gyngyd na 'u bwyta na 'u hyfed, na 'u gwerthu,
na gwneuthur ffagl o honynt. Ac am y Dafis
yna, mae iddo groeso i'r dodrefn sydd heb dalu
am danynt pan fynno; nid oes arnynt nemor o
geiniogwerth. A phan ddelo amser cyfaddas,
mi ddiolchaf i'r wyneb lleuen gadach am ei gas-
tiau llechwraidd. Yr oedd y llechgi brwt yn
ddiswydd ddigon ddyfod yma gyda 'r cynrhonyn
coesgam hwnnw o fachgen i hel chwedlau; ac yn
cydgoethi a chablu arnaf gyda 'r dafarnwraig
biglas yma, fal y mae hi ei hun yn addef yn awr
wedi cymodi o honom. Y BARDD GWYLLT.

PENDERFYNU YMADAEL.

[At yr Anrhydeddus a'r hybarch Gymdeithas o Gymro-
dorion, Goronwy Ddu, eu Cysaill a'u Bardd gynt, a'u
Gwasanaethwr a'u Car hyd angau, yn anfon annerch.]

Y PENDEFIGION URDDASOL,—Yn gymaint a'm
bod eirus yn dra rhwymedig i'ch hybarch
Gymdeithas, a'm bod yn myned yn ddiatreg
(Duw ro fordwy dda), yn rhybell i ddysgwyl byth
ond hynny weled un wyneb dyn o honoch, mi
dybiais nad anghymwys imi, neu yn hytrach fod
yn ddyledus arnaf, gymeryd cennad teg gennyh
oll cyn fy nghychwyn. Ac, fal y mynnai Dduw,
dyma 'r adeg orau oll o'm blaen, sef, ar noswaith
eich cyfarfod; pryd y mae rhan fawr o honoch
wedi ymgynnull trwy undeb a brawdgarwch, yn
ol eich Arfsgrif, i gydsynio ar wir les eich gwlad,

ac i hwylio yn mlaen amryw eraill o ddibenion canmoladwy eich Cymdeithas. Gweddus a Christionogawl iawn eich gwaith; boddlawm gan Dduw a chysurus i amryw o'i haelodau anghenawg, a chlod fawr yng ngolwg holl ddynolryw; a sicr a fydd eich gwobrwy ddydd a ddaw, gan yr hwn a ddywed, "Gwyn ei fyd a dosturio wrth y tlawd a'r anghenus." Am danaf fy hun, nid allaf ymhonni o ddim rhan o'r fendith yma, er bod yn aelod o'ch urddasol Gymdeithas, gan na roes y Goruchaf im' mo'r gallu; er y gallaf yn hyderus ddywedyd na bu arnaf erioed ddiffyg ewyllys; ac os Duw a'm llwydda, na bydd byth. Dyn wyf fi, fal y gwyr amryw o honoch, a welodd lawer tro ar fyd, er na welais nemor o dro da; ac mi allaf ddywedyd wrthy, fal y Padriarch Jacob wrth Pharoah gynt, "Ychydig a blin fu dyddiau 'ch gwas hyd yn hyn"; ond yn awr yr wyf yn gobeithio fod nef yn dechreu gwenu arnaf; ac y bydd wiw gan yr Hollalluog, sy'n porthi cywion y gigfran pan lefont arno, roi i minnau fodd i fagu fy mhiant yn ddiwall ddiangen. Er eu mwyn hwy yn unig y cymerais mewn llaw y fordaith hirfaith hon, heb ameu gennyf nad galwad rhagluniaeth ydyw. Hir a maith yn ddiau yw'r daith i Virginia; ond eto mae'n gysur, pan elir yno, gael dau gant punt yn y flwyddyn at fagu'r plant. Mae hyn yn fwy nag a ddysgwyliais erioed yn Mhrydain na'r Iwerddon; a pha fodd yr atebwn i'm teulu pe gwrthodwn y fath gynnyg drwy lwfrdra a difrâwch? Er eu mwyn hwy ynteu mi deflais y dis, gan roi fy einioes yn fy llaw a diystyrru pob perygl a allai ein goddiwes; a hynny, nid yn

fyrbwyll, ond o hir ystyried ac ymgynghori â'm carai. Ond er hynny, wedi ystyried ol a blaen, mi welaf yn awr lawer anghaffael na fedrais graffu arno nes bod yn rhywyr. Erbyn cytuno â pherchennog y llong, mi welaf nad yw yr holl arian a gaf at fy nhaith, ac oll a feddaf fy hun, wedi talu i bawb yr eiddo, ond prin ddigon i ddwyn fy nghost hyd yno; ac erbyn caffwyf fy nhroed ar Dir yr Addewid, y byddaf cyn llymed o arian a phan ddaethum o groth fy mam. Gwaith tost yw i bump o bobl fyned, nid i *deyrnas*, ond i *fyd* arall, heb ffyrting at eu hymborth! A gwaethaf oll yw, nad a ein llong ni o fewn deg milldir ar hugain i Williamsburg; ac, Och Dduw! pa fodd yr ymlusgir hyd fôr na thir heb arian? Fe wŷr Duw mor llwm ac anrhwsiadus hefyd yr ydym oll i fyned i'r cyfryw le, ond nid yw hynny ddim os ceir bara.

Dyna 'r achosion, anwyl gydwladwyr, a barodd im' ryfygu gofyn eich cymorth ar hyn i dro; gan wybod yn ddilys na flinaf un o honoch byth rhagllaw. Ond os Duw rydd einioes, mi gydunaf â chwi 'n llawen i gymorth eraill o'n gwlad. Rhowch hefyd im' gennad ar hyn o achlysur, i dalu diffuant ddiolch i chwi am eich parodrwydd i'm cymorth dro arall pryd yr oedd llai fy angen i, er nad llai eich ewyllys da chwi na 'm ddiolchgarwch innau, er na cheisiais ac na chefais y pryd hynny ddim o'ch haelioni, o fai rhyw aelod bliin terfysgus oedd yn eich plith. Ond yn awr yr wyf yn atolwch arnoch, y rhai oeddych mor barod i'm cymorth, ped fuasai raid, fy nghymorth ychydig wrth fy llwyr angenrhaid. Nid wyf yn ameu ewyllys da yr un o honoch ar y cyfryw

achos, ond pa un bynnag a wneloch ai ystyried fy nghyflwr ai peidio, myfi a weddiaf ar Dduw roddi ichwi lwyddiant yn y byd hwn a'r hwn a ddaw ; yr hyn y pryd yma yw 'r cwbl a eill

Eich uffudd Wasanaethwr,

Tachwedd yr ail, 1757.

GRONWY DDU.

CYCHWYN.

Ar fwrdd y *Trial* yn Spithead,

Rhagfyr 12, 1757.

YR ANWYL GYDWLADWR,—Dyma ni, trwy ragluniaeth y Goruchaf wedi dyfod hyd yma 'n iach lawen heb na "gwyw na gwayw", na selni môr, na dim anhap arall i'n goddiwes ; er caffael o honom lawer iawn o dywydd oer dryghinog tra buom yn y *Downs*, ac o'r *Downs* yma. Gwych o gefnocco y mae fy ngwraig i a'i thri Chymro bach yn dal allan heb na chlefyd y môr na chyfog, ond rhyw dipyn o bendro y dydd y daethom o'r *Nore* i'r *Downs*, lle 'r oedd y lladronesau Seisnig yma, ie, a'r lladron, ac ambell un o ddynion y llong ar chwydu eu perfeddau allan. Och yn eu calonnau ! Dynion bawaidd aruthr yw dynion y môr. Duw fo 'n geidwad i ni ! Mae pob un o naddynt wedi cymeryd iddo gyffoden o fysg y lladronesau, ac nid ydynt yn gwneud gwaith ond cnuchio 'n rhyferrig yn mhob congl o'r llong. Dyma bump neu chwech o naddynt wedi cael y clwyf. Ac nid oes yma feddyg yn y byd ; ond y fi sydd a llyfr Dr. Shaw gennyf ; ac yn ol hwnnw byddaf yn clytio rhywfaint arnynt â'r hen gyffiriau sydd yn y gist yma. Fe fydd arnaf weithiau ofn ei gael fy huir wrth fod yn eu

mysg. Mi fedyddiais un plentyn, a'i enw oedd "Francis Trial," ac a'i cleddais ef wedi, a lleidr a lladrones heblaw hynny. Heddyw y cleddais y lladrones. A ydych yn cofio fal y dywaid y penbwl yma o Gadpen y cai fy ngwraig i un o'r lladronesau i weini iddi tra bai ar y môr? Y mae yma yn y caban un o honynt, ond i weini i anlladrwydd y gŵr yma, nid i wasanaethu fy ngwraig i, y deuyd a hi yma. Ni welwyd erioed fwystfil o ddyngwaeth na'r pennaeth. Y mae yn gorfod arnom er ys pythefnos yfed dwfr drewllyd neu dagu; canys nid oes diferyn o ddiodyd fain yn y llong; ac edrych arno ynteu'n yfed ei winoedd a'i gwrw rhyngo ef a'i gyffoden, ac yn sipian ei weflau diawl i godi blys arnom, ac yn dywedyd, *It is very good*. Pa beth, meddwch chiwi, a ddaw o honom cyn y pen y daith? Ond mae gennyf inau faril o *borter* heb erioed ei agor, a pheth *rum*. Yr ydwyf yn lled ofni iddo ryw dro neu gilydd fy nigio cyn belled, wrth daro rhai o'm plant neu ryw gast arall, fal y mae arno gant o gastiau drwg, a gwneuthur redeg fy nghleddyf tan ei asenau byrion; a diolch iddo roddi imi fenthyg dul o gleddyf cyn flaen llymed. Ond Duw a'm cato rhag drwg. Rhowch fy ngwasanaeth at Mr. John Owen, a dangoswch hwn iddo; ac at y Llew, Parry, Humphreys, &c. Yr ydym yn hwyllo pan gyntaf y bo'r gwynt yn deg gyda'r rest o'r llynges, yr hon sy'n cynnwys yn nghylch dau gant o longau.

Duw ro i chiwi a ninnau iechyd a rhaith dda!

Mi ydwyf eich ufudd Wasanaethwr,

GRONWY DDU.

VI. O'R GORLLEWIN.

BYWYD YN Y WLAD BELL.

[At Richard Morris.]

Brunswick, Gorffennaf 23, 1767.

YR ANWYL GYFAILL,—Ar ol cyd-alaru â chwi am farwolaeth eich dau frawd godidog, y nesaf peth a ddylwn ei wneuthur, yw mynegu ichwi pa fodd y digwyddws im' glywed y trist newyddion. Ar fyr eiriau fal hyn y bu. Chwi, fe weddai, a ysgrifenasoch at William Parry yn Middlesex yn y wlad yma, tros saith ugain milltir o'r lle 'r wyf i yn preswyllo; ac ynteu yn mhen hir a hwyr a 'sgrifennodd yma. Minnau a'i hatebais ynteu drachefn; ond byth gwedi ni chlywais na siw na miw oddi wrtho. Ofni yr wyf fod ryw chwiwgi wedi difrodi fy llythyr cyn ei roi i'r Parry. Nid oes yma ddim post yn myned trwy 'r wlad fal yna; dim ond ymddiried i'r cyntaf a welir yn myned yn gyfagos i'r lle; ac weithiau fe fydd llythyr nowmis neu flwyddyn yn ymlwybrin deg milltir ar hugain o ffordd, ac yn aml ni chyrraeth byth mo 'i bennod. Hiliogaeth lladron o bob gwlad yw 'r rhan fwyaf o drigolion y fangre hon, ac y mae ysfa ddiawledig ar eu dwylaw i fod yn ymyrraeth â phethau pobl eraill, ac i wybod pob ysmic a fo 'n passio rhwng Sais genedigol â'i gydwladwyr yn Lloegr. Mawr yw 'r chwant sydd arnynt gael gwybod helyntion gwŷr Brydain; a pha un a wnelont a rhoi gair da i'r wlad a'r bobl yn eu llythyrau at eu cydwladwyr ai peidio. Fe gyst imi fyned drugain milltir neu well, i roi hwn o'm llaw fy hun i ryw

Gadpen ar fwrdd llong; onide ni ddeuai byth hyd yna, os daw er hynny. Mi 'sgrifennais atoch liaws o lythyrâu yn nghylch wyth mlynedd i'r awron. Nis gwn a gawsoch ddim o honynt. Y mae yma, o fewn deugain milltir ataf, un Siôn ap Huw, Cymro o Feirionydd, yn berson mew'n plwyf. Hwnnw a ddywaid imi fod fy nghyfaill Lewis Morris wedi cael ei daflu yn y gyfraith, a'i ddiswyddo, a'i ddyfetha, cyn iddo ef adael Cymru, ond nis clywsai mo 'i farw. Fe ddywaid hefyd, fod peth o'm gwaith i yn argraphedig, a gwaith y Llew gyda hwynt. Gwych fyddai eu gweled. Do hefyd, fod gwaith Ieuan Fardd yn argraphedig. A ellir byth eu gweled tu yma i'r mor? Ni chaf na lle nag amser i ddywedyd ichwi ddim o'm helyntion ar hyn o dro. Pan weloch yn dda 'sgrifennu, chwi gewch wybod y maint a fynnoch. Yr unig beth sydd imi i'w daer ddeisyf gennych yw, rhoi imi law'n gyfrif pwy yw y rhai o'm cydnabyddiaeth sy 'n fyw, a pha le y maent, rhag imi 'sgrifennu at bobl yn eu beddau. Mae 'ch nai, Sion Owen, Fwynwr? Mae Parry o'r Mint? Mae 'r Person, Mr Humphreys? Ai byw Tom Williams, y Druggist o Lôn y Bais? Os e, yno y mae fyth? Ai byw Huwycyn Williams, Person Aberffraw? Ai byw 'ch tad? a'm chwaer Sian innau, yn Mynydd Bodafon? Mi gefais y newydd farw 'mrawd Owen yn Nghroes Oswallt. Yr wyf fi, i Dduw y bo 'r diolch, yn iach heinyf; a'r wlad yn dygymod â mi 'n burion. Nid oes un o'm teulu Seisnig yn fyw ond fy mab Robert; ac y mae ef cymaint a mi fy hun. Yr wyf yn briod a'm trydedd wraig, a chennyf dri o blant a aned yma, heblaw Robyn. Gwlad dda helaeth-

lawn yw'r wlad yma ; ond nawdd Duw a'i Saint
rhag y trigolion !—oddigerth y sawl o honynt sydd
Saeson, ac nid da mo honynt hwythau holl.

Anerchwch fy nghyfaill Parry o'r Fint, a
Pherson y Twr Gwyn, a Sion Owen, Fwynwr ;
ie, ac Andrew Jones, a phob wyneb dyn a'm
hadwaeno.

Duw gyda chwi oll ! Mi fyddaf yn disgwyl
llythyr yn mhen chwe mis.

Mi wyf yr eiddoch, etc.,

GORONWY OWEN.

MARWNAD LEWYS MORYS YSWAIN,

GYNT O FON, YN DDIWEDDAR O ALLTFADOG,
YN NGBHEREDIGION ; PEN-BARDD, HANESYDD,
HYNAFIAETHYDD, A PHILOSOPHYDD YR OES
A AETH HEIBIO ; GWIR-GARWR EI FRÉNIN
A LLES CYFFREDIN EI WLAD ; A HOFFWR A
CHOLEDDWR EI IAITH A'I GENEDL.

YN YR AWDL HON Y MAE PEDWAR MESUR AR HUGAIN
CERDD DAFAWD, YN NGHVD A NODAU YR AWDUR AR
RAI PETHAU HYNOD.

Englynion Unodl Union.

○ CH dristyd ddyfryd ddwyfron,—Och Geli,
Och galed newyddion,
Och eilwaith gorff a chalon,
Och roi 'n y bedd mawredd Mon.

Mawredd gwlad Wynedd, glod union—
Cynnor presenolion ; [ceinwalch,
A byw urddas y beirddion,
A'u blaenawr oedd Llew mawr Mon.

Marwnad Lewis Morris. 49

Cyd bai hirfaith taith o'r wlad hon *—yno,
Hyd ewynawg eigion,
Trwst'neiddiwch trist newyddion,
Ni oludd tir, ni ladd ton.

Mae tonnau dagrau digron—i'm hwyneb
Am hynaws gâr ffyddlon ;
Llwydais i gan gollodion ;
Oer a fu 'r hynt i'r fro hon.

Bro coedydd, gellydd gwylltion—pau prifwig
Pob pryfed echryslon ;
Hell fro eddyl llofruddion,
Indiaid, eres haid, arw son !

Soniais, sugenais gŵynion,—do ganwaith,
Am deg Wynedd wendon ;
Doethach im' dewi weithion ;
Heb Lewys mwy, ba les Mon ?

Galar ac afar gofion—mynych ynt,
Man na chaid ond hoywon ;
Nis deryw, ynys dirion,
Loes a fu waeth i lwys Fon.

Cywydd Llosgyrnog ac Awdl-gywydd yn nghyd.

Ni fu 'n unig i Fon ynys
Loes am arwyl Lewys Morys ;
Ond erys yn oed wyrion
Ym mhob gwlad achwyniad chwith
O'i ran ym mhlith cywreinion.

* Virginia yn America, lle y mae 'r awdwr yn drigiannol, wedi colli y rhan fwyaf o'i deulu ar y môr wrth fordwyo yno o Lundain yn y flwyddyn 1757.

Cywydd Deuair Fyrion a Deuair Hirion yn nghyd.

Cynnal cwynion
O dir i don,
Dan gaerau Prydain goron,
Yr ydis an Lewis lon.

Proest Cysfnewidiog Saith-ban.

Yn iach oll Awen a chân !
Yn iach les o hanes hen,
A'i felus gainc o flas gwin !
Yn iach im' mwyach ym Mon
Fyth o'i ol gael y fath un !
Yn iach bob sarllach a sw'n !
Un naws â dail einioes dyn.

Unodl Grwca.

Teiroes i'r mwynwr tirion,
O ras nef a roesai 'n Ion
O'i ddawn, o chawsai ddyinion—eu meddwl
Ar fanwl erfynion.

Unodl Gyrc'h.

Er eidduned taer ddyinion,
Er gwaedd mil, er gweddi Môn,*
Ni adfer Ner amser oes :
Rhed einioes, nid rhaid unon.

Proest Cadwynodl.

Duw a'i dug ef, dad y gân,
Cywir i'w ddydd carodd Ion,
Yn ngolau gwledd engyl glân ;
Yntau a 'n sant : tawn a son.

* Felly Horatius:—

“ Labuntur anni ; nec pietas moram
Rugis et instanti senectæ
Afferet, indomitæque mortî.”

Clogyrnach.

Hawdd y gorthaw ddifraw ddwyfron ;
Erchyll celu archoll calon ;
 O raen oer enaid,
 Diau bydd dibaid
Uchenaid a chwynion.

Gwawdodyn Byr.

Cair och o'i hunaw, cur achwynion,
A chaeth iawn alaeth i'w anwylion ;
Parawdd i ddinawdd weinion—o'u colled,
Drem arw eu gweled, drom oer galon.

Dau Doddaid.

Pa golled—gwared gwirion—o delmau
Ac o hir dreisiau gwŷr rhy drawsion !*
O frwd ymddygdw ddigon—y diangodd,
Gwen nef a gafodd gan Naf gyfion.

Gwawdodyn Hir.

A fynno gyrraedd nef, wen goron,
Dwy ran ei helynt drain a hoelion,
Pigawg, dra llidiawg fawr drallodion,
Croesau, cryf-loesau, criau croywon,
Erlid a gofid i'w gyfion—yspryd,
Ym myd gwael bawlyd ac helbulon.

Byr a Thoddaid.

Er llid, er gofid, wir gyfion—ddeiliad,
Ef oedd ddilwgr galon ;
Duw a folai, da 'i ofalon ;
Siôr a garai is aur goron ;

* Hyn, a rhan fawr o'r hyn a ganlyn, sy 'n penodi at ryw ddamweiniau a ddigwyddasant iddo, ennyd cyn ei farw ; ac nid rhaid i'w gydnabyddiaeth wrth nodau, amgeu na 'u coffadwriaeth eu hunain i'w hegluro.

Lle bai gwaethaf llu bygythion,
 Ni chai 'r anwir drechu 'r union ;
 Dra gallawdd, nadawdd i anudon—dorf
 Lwyr darfu 'r lledneision.

Dau Doddaid.

Bu 'n wastad ddifrad ddwyfron,—ddiysgog
 I'w hydr eneniog Deyrn union ;
 Rhyngodd ei fodd â'i ufuddion—swyddau
 A chwys ei aelau â chysulion.

Gwardodyn Byr.

Mesurai, gwyddai bob agweddion,
 Llun daear ogyrch, llanw dŵr eigion ;
 Amgylchoedd moroedd mawrion—'a'u cymlawdd,
 Iawn y danghosawdd, nid anghysson.

Dau Wardodyn Hir.

Daear a chwiliodd drwy ei chalon ;
 Chwalai a chloddiai ei choluddion,
 A'i dewis wythi, meini mwynion,
 A thew res euraid ei thrysorion,
 A'i manylaf ddymunolion—bethau ;
 Deuai i'r golau ei dirgelion.

Olrheiniodd, chwiliodd yr uchelion,
 Llwybrau 'r taranau a'r terwynion
 Fflamawg fellt llamawg, foltau llymion,
 Is awyr gannaid a ser gwynion ;
 Nodai 'r lloer a'i newidion ;—hynt cwmwl
 O fro y nifwl i for Neifion.

Dau Doddaid eto.

Ebrwyddaf oedd o'r wybryddion--hyglod,
 A llwyr ryfeddod holl rifyddion.
 Traethai, fe wyddai foddion—teyrnasoedd ;
 Rhoe o hen oesoedd wir hanesion.

Gwardodyn Hir.

Honni a gafodd o hen gofion,
Achoedd dewr bobloedd o dwr Bab'lon,
Coffa bri ethol cyff y Brython,*

Gomer a'i hil yn Gymry haelion,
Teithiau da lwythau dilythion,—diwarth,
O du Areulbarth i dir Albion.

Gwardodyn Byr.

A thrin a thrabludd, lludd lluyddion
Prydain a'i filwyr, pryd nefolion ;
A'r lladdiad, gâd ergydion—a oryw,
A gwaed a distryw 'r giwdawd estron.

Huppynt Byr.

Ni chaid diwedd
O'i hynawsedd
 A'i hanesion ;
Ni chair hafal
Wr a chystal
 Ei orchestion.

Tawddgyrch Gyfochrog.

Llon wr gŵraidd llawn rhagorau,
Mawrdda 'i ddoniau mor ddiddanion,
Dof arwraidd, difyr eiriau,
Meddaidd enau, wiw 'mddiddanion.

Huppynt Hir.

Glyw defodau
Eisteddfodau,
A'u hanodau,
 A'u hynadon ;

* *Cyff y Brython.* Efe a ysgrifenoedd dwysgen ar y testun hwnnw ; ond pa un ai bod dim o'r gwaith yn argraphedig, nis gwn.

Eu cyngreiriau,
 A'u cyweiriau,
 A chadeiriau
 Uwch awduron.

Cadwyn Fyr.

Uwch awduron a chadeiriawg,
 Bur iaith rywiawg bêr athrawon,
 A chelfyddon uchel feiddiawg,
 A'r beirdd enwawg, eirbêr ddynton.

Huppynt Hir yn nglŷn â Gorchest y Beirdd.

Ef oedd Ofydd
 A dywenydd,
 Hylwybr ieithydd,
 Hil y Brython ;
 Gan wau gwynwaith,
 Tlysau tloswaith,
 Orau araith
 Aur wron.

Hir a Thoddaid.

Goleuodd wedi ei gywleiddiadon
 A gwir hyfforddiant geiriau hoff heirddion ;
 Athrawai 'n fuddiol a thrwy iawn foddion ;
 E gaed moes wiwdda gyd â maswedddion ;
 Lle bu 'r diddysg hyll brydyddion,—brin ddau,
 Fe rodd ugeiniau o hoywfeirdd gwynion.*

* Mae 'r awdwr, gyd â phob dyledus barch i goffadwriaeth Mr. Lewys Morys, yn tra diolchgar gydnabod, mai iddo ef y mae 'n rhwymedig am yr ychydig wybodaeth ym marddoniaeth Gymraeg a ddaeth i'w ran; ac yn ffyddlon gredu—nid er gwaith nac er gogan i neb—y gall y rhan fwyaf o feirdd Cymru, ar a haeddant yr enw, gyfaddef yr un peth. Ac er nad yw les yn y byd i'r Awdwr mewn dicithr wlad dramor, lle nas deall yn oed ei blant ei hun air o'r iaith Gymraeg, eto

Cyrch a Chwatla.

Ar y sydd i'r oes hon
Yn fawrddysg Awen feirddion,
A gwiw les fryd i'w glwys fron,
Bryd arail i'w bro dirion,
Agos oll ynt, dêg weis llon
O ddysg abl, ei ddisgyblion ;
A phoed maith goffhâd a mawl
I'w arglwyddawl ryglyddon.

Cyhydedd Naw Sillafog Chwe-ban.

A thra bo urddawl athro beirddion,
A mwyn dysg wiwles mewn dwys galon,
Gwiwdeb ar iaith, a gwaed y Brython,
Ac Awen Gwyndud, ac ewyn gwendon,
Daeaf a nef a dŵr yn afon,
Ef a gaiff hoywaf wiw goffeion.

Cyhydedd Fer.

Aed, wâr enaid ; aed, wr union ;
Aed ragorwalch diwair, gwirion,
I fro Iesu fry a'i weision ;
I'w gain gaerau a gwen goron.

Cyhydedd Hir.

Ac uned ganu, sant, wiwsant Iesu,
Ef a'i leng wiwlu, fil angylion ;
Ein dof Oen difai, lwys wawd EL SADAI,
Musig adwaenai ym mysg dynion.

mae 'n ddywenydd ganddo goffhau iaith ei fam a'i wlad gynhenid yn ei hir alltudedd ; a gresyn ganddo na bai lle y gallai wneuthur mwy o les a pharch i'w iaith a'i wlad ;—ond a fynno Duw a fydd.

Gwardodyn Byr.


Uned ganiad eneidiau gwynion,
 Llem araith wrol llu merthyron,
 Ni ludd gweli, ni ladd gâlon—ei grym,
 Nac ing croywlym, nac angeu creulon.

Dau Warwdodyn Hir.

Gwedi caledi, cyni, cwynion
 Artaith, erchyllwaith ac archollion,
 Gwaed ffrau, a ffrydiau dagrau digron,
 A chur marwol, a chriau mawrion,
 Gwyarlliw fraenfriw oer frwynfron,—nid mud
 Mawl cain côr astud mil can Cristion.
 Eiddunaf finnau, Dduw Naf union,
 Allu im' uno â'u llu mwynion,
 Prydu i geisio perawd gyson
 I lwysawd eirioes Lewys dirion,
 Cywyddau cu odlau cydlon—ganu,
 Llé mynno Iesu, lleu Monwysion.


*Yr Awdl hon a gânt GORONWY OWEN, Person
 Llanandreas, yn swydd Brunswic, yn Virginia,
 yn y Gogleddawyl America; lle na chlybu, ac na
 lesfirodd hauach ddeng air o Gymraeg er ys gwell
 na deng mlynedd.*

Gorffennaf 20, 1767.





Y NENNAWR.
"Dedwydd im gell a'm didol." II. 12.



ATODIAD I.

(Hyd yn hyn rhoddwyd y rhannau o lythyrau a gwaith barddonol Goronwy Owen sydd yn dangos hanes ei fywyd, a dadblygiad ei athrylith. Yma rhoddir y gweddill o'i farddoniaeth Gymraeg.)

CALENDR Y CARWR.

[Gwel y rhan gyntaf yn Cyf. I., tud. 11—13.]

CYRRAEDD trwyn y clogwyni,
Perthfryn, lle na'm canlyn ci.
Bwriais gyrch hyd Abererch ;
Llan yw hon wrth afon Erch
Cerdded rhag ofn gweled gŵyll
Grebach, na bo 'nd ei grybwyll,
Neu gael i 'mafael a mi
Goeg ysbryd, drygiawg aspri.
Torri ar draws tir i'r dref,
Ar ddidro cyrraedd adref ;
Wrthyf fy hun eiddunaw
Yn frau, i wellâu rhag llaw.
Cefais o'm serch ddiferchwys
Oer fraw ; ac nid af ar frys
I'w chyfarch ; ond arch, 'nid af'—
Diowryd yw a dorraf.
Af unwaith i Eifionydd,—
Unwaith? Un dengwaith yn 'dydd.
Oerchwith gaeth gyflwr erchyll,
Ai "Af," ai "Nag af," a gyll.
Bwriadu'n un bryd a wnaf,
Ac â'r ffon y gorffennaf.

Dodaf fy ffon unionwyp
 Ar flaen ei goslaen ; hi gwyp ;
 Aed lle 'r el, ni ddychwelaf ;
 Ar ol y dderwen yr af.

ENGLYN O GYNGOR.*

COFIA y Duw byw tra bych—o galon ;
 A galw arno'n fynych ;
 Cofia y daw'r rhaw a'r rhych,
 Oll yn wael lle ni welych.

PROEST CADWYNODL BOGALOG.

A math o watworgerdd ar yr hen englyn bogalog.

D'i wiv wy a weua e
 Ieua u o ia, ai e yw ?
 Ai o au weua u a we,
 A'i au i wau ei we wyw ?

ENGLYN

A SAIN GUDD YNDDO.

DWY estyn bicyn i bwl—trybola
 Tra bo i'w elw ddeuswllt ?
 Trasyth fydd perchen triswllt,
 Boed sych a arbedo swllt.

* Dywed y *Gweladgarwr* (Tach., 1840) mai Goronwy Owen wnaeth hwn.

CYWYDD I IEUAN BRYDYDD HIR.

SWYNFAN a fu o'r cynfyd
 Gan y beirdd ar goegni byd ;
 Tra fo llên, ac awenydd,
 A chân fwyn, achwyn a fydd.
 Gwyfyn, du elyn dilyth
 Awen, yw Cenfigen fyth :
 Cenfigen ac awenydd
 Ym mhob llin finfin a fydd.
 O dwf llawn dwy efell ynt ;
 O chredi, dwy chwaer ydynt ;
 Dwy na wnaed i dynnu n' ol ;
 Dwy ydynt, pwy a'u didol ?
 Ni wneir o fron anaraul
 Ond cysgod, er rhod yr haul.
 A diwad ydyw, Ieuan,
 Bron sydd na chydfydd â chân.
 Wrth Homer wiw gerddber gynt,
 Gwyddost, mor eiddig oeddynt ;
 Hurtaf o ddyd a'i hortiai,
 Miwail ei fydr, aml ei fai ;
 Gwall oedd ei gerdd, pencerdd per,
 Os coeliwn Soyl ysceler.
 Maro a orug mowrwaith ;
 Bas y gwyl Bawas y gwaith.
 Ni pharchwyd gradd o naddun ;
 Mawr oedd cas Horas ei hun.
 Er Dofydd, pwy wr difai
 A fu 'rioed na feio rai ?
 Bu gylus gwaith Mab Gwilym,
 A'i gerdd gref, agwrdd ei grym.
 Pawb a'i cenfydd, o bydd bai,
 A bawddyn, er na byddai.

A diau, boed gau, bid gwir,
 Buan ar fardd y beïr.
 E geir, heb law 'r offeiriad,
 Gan bron yn dwyn gwŷn a brad ;
 Milweis eiddig, mal Suddas,
 Heb son am Dregaron gas.
 Dos trwy glod rhagod er hyn,
 Heria bob coeg ddihiryn,
 A dilyn fyth hyd elawr
 O hyd y gelfyddyd fawr.
 Od oes wŷr â drygfoes draw
 Afrywiog i'n difriaw,
 Cawn yn hwyr gan eu hwyrion,
 Na roes y ddihiroes hon.

ENGLYNION O GLOD I'R DELYN.

T ELYN i bob dyn doniawl—ddifaswedd
 Ydoedd fwsig nefawl ;
 Telyn fwyngan, ddiiddanawl,
 Llais telyn a ddychryn ddiawl.

Nid oes hawl i ddiawl ar ddyn—mwyn
 cywraint,
 Y mae'n curo'r gelyn ;
 Bwriwyd o Saul ysbryd syn
 Diawlaidd, wrth ganu'r delyn.

CYWYDD I DYWYSAWG CYMRU

Gwedi ei gyfieithu o'r un Lladin a ysgrifenydd gan
Christopher Smart.

DWY ddysg im'—pa dduwies gain—

Wir araith i arwyrain
Gwraf edlin breninwawr,
Blaenllin Cymru, fyddin fawr?
Ai rhaid Awen gymengoeg
O drum Parnassus, gwlad Roeg?
Cyfarch cerddbêr Bieriaid
Am achles, hoff les, a phlaidd?
Ni cheisiaf—nid af i'w dud—
Glod o elldydd gwlad alltud;
Ofer y daith, afraid oedd;
Mwyneiddiach yw 'n mynyddoedd,
Lle mae Awen ddiweniaith,
Gelfydd, ym mhob mynydd maith,
Na wna 'n eglur, neu 'n wiwglod,
Ond da, a ryglydda glod.

Pan danwyd poenau dunych
A braw du 'n ael Brydain wych,
Pan aeth Fredrig i drigias
Da iawn fro Duw nef a'i ras,
Rhoe Gymru hen uchenaidd;
A thrwm o bob cwm y caid
Trystlais yn ateb tristlef
Prydain, ac wylofain lef.

O'r tristwch duoer trosti
Nid hawdd y dihunawdd hi,
Fal meillion i hinon haf
O rew-wynt hir oer auaf;
Iach wladwyr eilchwyl ydym
Oll yn awr, a llawen ym;
Ni fu wlad o'i Phenadur
Falchach, ar ol garwach gur

Llew o udd drud, llewaidd draw,
 I ni sydd ; einioes iddaw !
 Udd gwrawl, haeddai gariad ;
 Por dewr a ddirprwy ei dad ;
 Ni bu ryfedd rinweddau
 Ym maboed erioed ar Iau ;
 Arwr a fydd, ddydd a ddaw,
 Mawreddog. Amor iddaw !
 Hiroes i wâr Gaisar gu,
 Di-orn oes i deyrnasu ;
 A phan roddo heibio hon
 I gyrraedd nefol goron—
 Nefol goron gogoniant,
 Yn oediog, lwys enwog sant,
 Poed Trydydd Sior, ein Ior ni,
 O rinwedd ei rieni,
 Yn iawnfarn, gadarn geidwad
 I'w dir, un gynneddf â'i dad !
 Am a ddywaid, maddeuant
 A gais yr Awen, a gant
 Hyn o'ch clod mewn tafodiaith
 A dull llesg hen dywyll iaith.
 Mawr ryddid Cymru heddyw,
 Llawen ei chân, llonwych yw,
 Trwy ei miloedd, tra molynt
 Eu noddwr, hoyw gampiwr gynt ;
 Llyw diwael yn lle Dewi,
 Ior mawr wyt yn awr i ni.
 Ti ydyw 'n gwarlyw gwirles ;
 Ti fydd ein llywydd a'n lles.
 Os dy ran, wr dianhael,
 A wisg y genhinen wael,
 Prisiaf genhin breninwych
 Uwch llawrydd tragywydd gwych.

CYWYDD I OFYN FFRANCOD

GAN WILLIAM FYCHAN, YSW., O GORSYGEDOL A NANNAU.

GŴR addfwyn, goreuddeddf,
 Ni wn wr oll yn un reddf;
 Gŵr ydych gorau adwaen;
 Och! ble y cair un o' ch blaen?
 Yn ail i chwi ni welais,
 Naws hael, o Gymro na Sais.
 Gŵr od, ysgwier, ydych
 Ar bawb, a phoed hir y bych!
 Ym Meirion lwys am roi 'n lân,
 Haelaf achau hil Fychan;
 Hael yn unwedd hil Nannau,
 Dau enwog hil dinaghâu;
 Hil glân a ŵyr heiliaw gwledd,
 Blaeniaid ar holl bobl Wynedd.
 O chyrchent, rhoech i eirchiaid
 Ddawn a rhodd ddienn i'w rhaid;
 Ni bu nag i neb yn ol,
 Na gwad, o Gorsygedol;
 Gwir ys henwi 'r *Gors* honno
 Yn *Gedol*, freyrol fro.
Cors roddfawr, o bwyf awr byw,
 Un *gedol* ddinag ydyw:
 Gras a hedd yn y *gors* hon,
 Lle hiliwyd llu o haelion.
 Yn y dir 'r wy 'n ymddiried,
 A gwn y cair ynddi ged;
 A ched a archaf i chwi,
 A rhydd y bych i'w rhoddi.
 Ior mau, os wyf o rym sal,
 Dyn ydwyf dianwadal,
 O serchog, dylwythog lin.
 Dibrinaf ddeiliaid brenin;

Ail llanw môr yw y llin mau ;
 Ceraint i mi 'mhob cyrrau ;
 Ym Mon, a Llannerch-y-medd,
 A Llŷn, a thrwy holl Wynedd ;
 Yn llinyn yno llanwent,
 Hapus gylch, Powys a Gwent ;
 Diadell trwy Deudir,
 Rhaid oedd, a thrwy bob rhyw dir.
 Ein hynaif iawn wahenynt
 Bedair rhan o'r byd ar hynt :
 Dwy oludog, dew, lydan ;
 Duw Ion a wŷr, a dwy 'n wan.
 O gyfan bedair rhan byd
 Dwy-ran i mi y deiryd ;
 Ac aml un yn dymunaw,
 Waethaf o'u llin, waith fy llaw ;
 A rhwydd wyf i'r rhiaidd yrr
 Llwythawg i yrru llythyr,
 Ond na fedd dyn, libyn lu,
 Diles, mo 'r modd i dalu.

Gwyn ei fyd egwan a fedd
 Wr o synwyr o'r Senedd,
 A'i dygai 'n landdyn digost
 I selio ffranc, ddisalw ffrost.
 Minnau, fy mawr ddymuniad
 Yw cael, gan wr hael, yn rhad
 Ffrancod eglur Mur Meirion,
 O ran mael, i 'Ronwy Mon.

Hefyd nid Ffranc anhyfaeth,
 Dyn o dir Ffrainc, dwndwr ffraeth,
 O'r rhwyddaf im' y rhoddech
 O'r lladron chwiwdron naw chwech ;
 Er mai gormodd, wr noddawl,
 Yw rhif deg rhof fi a diawl,

Deuddeg o chaf ni 'm diddawr,
 Ni 'ch difwyn, y gŵr mwyn mawr;
 Hynny dâl, heb ry sal bris,
 Lawer o Ffrancod Lewis.

CYFIEITHIADAU O ANACREON.

NATUR a wnaeth, iawn ytyw,
 Ei rhan ar bob anian byw :
 I'r cadfarch dihafarchwych
 Carnau a roes ; cynn i'r ŷch ;
 Mythder i'r ceinych mwythdew ;
 Daint hirion llymion i'r llew ;
 Rhoes i bysg nawf ym mysg myr ;
 I ddrywod dreiddio'r awyr ;
 I'r gwŷr rhoes bwyll rhagorol ;
 Ond plaid benywaidd—bu 'n ol :
 Pa radau gânt ? Pryd a gwedd ;
 Digon i fenyw degwedd
 Rhag cledd llachar a tharian ;
 Dor yw na thyr dur na tân ;
 Nid yw tân a'i wyllt waneg
 Fwy na dim wrth fenyw deg.

Mae 'n ddiau myn y ddaear
 Yfed o wlych rych yr âr ;
 Dilys yr yf coed eilwaith
 Y dŵr a lwnc daear laith ;
 Awyr a lwnc môr a'i li ;
 Yf yr haul o for heli ;
 Ar antur yf loer yntau ;
 Yfont a d'unont eu dau.
 Y mae 'n chwi h i mi na chaf
 Finau yfed a fynnaf.

Gwarthus iwch ddigio wrthyf,
Nid oes dim o'r byd nad yf.

Hoff ar hen yw gwên a gwawd ;
Bid llanc ddihadl, drwyadl droed ;
Os hen an-nïen a naid,
Hen yw ei ben lledpen, llwyd,
A synwyr iau sy 'n yr iad.

ENGLYNION I OFYN COSYN LLAETH GEIFR

GAN WILLIAM GRUFFYDD, DRWS Y COED, A DROS DOMAS
HUWS. 1754.

DYNYN wyf a adwaenoch—er ennyd,
A yrr annerch atoch ;
Rhad a hedd ar a feddoch,
I'ch byw, a phoed iach y boch.

I chwi mae, i'ch cae uwch cyll,
Geifr, hyfrod, bychod, heb wall ;
Llawer mynnyn, milyn mwll,
Rhad rhwydd a llwydd ar bob lllill.

Mae iwch gaws liaws ar led—eich annedd,
A'ch enwyn cyn amled ;
Y mwynwr, er dymuned,
Rhowch i'm gryn gosyn o ged.

Cosyn heb un defnyn dwfr,
Cosyn ar wedd picyn pefr,
Cosyn o waith gwrach laith, lofr,
Cosyn o flith gofrith gafr.

Blysig, aniddig ei nâd—yw meistres,
A mwstrio mae'n wastad ;
Ni fyn mwy un arlwyad
Na gwledd, ond o gaws ein gwlad.

Myn Mair, oni's cair y caws
Ar fyr, y gŵr difyr dwys,
Ni bydd swydd, na boddio Sais,
Na dim mwy hedd i Dwm Huws.

Os melyn gosyn a gaf,—nid unwaith
Am dano diolchaf;
Milwaith, wr mwyn, y'ch molaf,
Hau 'ch clod ar bob nod a wnaif.

MARWNAD

I'r elusengar a'r anhepcor MR. JOHN OWEN, o'r Plas yn
Ngheidio, yn Lleyn.

1. *Unodl Union.*

WAE Nefyn, gwae Lŷn gul wedd,—gwae
Geidio,
Gwae i giwdawd Gwynedd,
Gwae oer farw gŵr o fawredd,
Llwy'r wae, ac y mae ym medd.

2. *Proest Cyfnewidiog.*

Achwyn mawr, och yn y modd!
Nid ael sech, ond wylo sydd;
Gwayw yw i bawb gau y bedd
Ar Sion Owen, berchen budd.

3. *Proest Cadwynog.*

Cadd ei wraig bêr drymder draw
Am ei gwaraidd, lariaidd lyw,
A'i blant hefyd frwynfryd fraw;
Odid un fath dad yn fyw.

4. *Unodl Grwca.*

Mawr gwynaw y mae 'r gweinion
"Gwae oll y sut gollj Sion";

Ni bu rwyddach neb o'i roddion—diwg,
Diledwg i dlodion.

5. *Unodl Gyrc'h.*

Llyw gwaraidd llaw egored,
Rhwydd a gwiw y rhoddai ged ;
Mwynwych oedd, (y mae 'n chwith !)
Digyrrith da ei giried.

6. *Cywydd Deuair Hirion.*

Gwrda na phrisiai gardawd,
Ond o les a wna i dlawd.

7. *Cywydd Deuair Fyrion. Awdl Gywydd. Cywydd Llosgyrnawg, a Thoddaid, ynghyd.*

Ni bu neb wr
Rhwyddach rhoddwr ;
A mawr iawn saeth ym mron Sion
Cri a chwynion croch wannwr.
Llawer teulu, llwyr eu toliant
A'u gwall, eirus a gollasant
Sin addient Sion i'w noddi.
Bu ŷd i'w plith a bwyd i'w plant,—eu rhaid
Hyd oni ail-gaid yn y weilgi.

11. *Gwawdodyn Byr.*

Sion o burchwant, os un, a berchid ;
Synwyr goreu, Sion wâr a gerid ;
Sion a felus iawn folid,—pan hunodd
Sion Owen gufodd, syn yw'n gofid.

12. *Gwawdodyn Hir.*

Chychwi y gweiniaid, och eich geni !
A marw 'ch triniwr, mawr yw 'ch trueni.
Pwy rydd luniaeth, pa rodd yleni
Yn ail i Sion, iawn eluseni ?

Oer bod achos i'r byd ochi ;—nis daw
Er gofdiaiw awr i gyfodi.

13. *Byr a Thoddaid.*

Ar hyd ei fywyd o'i fodd,—iawn haelwas,
Yn helaeth y rhannodd ;
A'i Dduw eilwaith a addolodd ;
Wiw baun dethol, a'i bendithiodd.
Diwall oedd a da y llwyddodd ;
Am elw ciried mil a'i carodd ;
Hap llesol, pwy a'i llysodd ?—Dduw un-tri,
Ei Geli a'i galwodd.

14. *Hir a Thoddaid.*

Wiuddyn cariadus, i Dduw Ion credodd,
Hoff oedd i'w Geidwad, a'i ffydd a gadwodd ;
A'i orchymyn i wyrw o chwimiodd ;
Da fu y rheol, edifarhaodd.
Ym marwolaeth e 'moralwodd—A'i Ner,
A Duw, orau byw-Ner a'i derbyniodd.

15. *Hupynt Byr.*

Os tra pherchid,
O mawr eurid,
Am arwredd ;
Deufwy cerid,
Mwy yr enwid,
Am ei rinwedd.

16. *Hupynt Hir.*

Am ei roddion
A'i 'madroddion,
Hoyw wr cyfion,
Hir y cofier !
Ei blant grasol
Gan Dduw nefol,

Fwyn had ethol,
A fendithier.

17. *Cyhydedd Fer.*

Cu hil hynaws! cael o honynt,
Duw 'n dedwyddwch, Di 'n Dad iddynt,
Yn ymddifad na 'moddefynt
Gyrchau trawster; gwarchod trostynt.

18. *Cyhydedd Hir.*

I'w gain, fain, fwynhael,
Briod, hyglood hael,
Duw tirionhael,
Dod ti hir einioes;
Rhad ddifrad ddwyfron,
Amledd heddi hon,
I hwylio 'i phurion
Hir hoff eirioes.

19. *Cyhydedd Naw-ban.*

Am a wna Wiliam, mwy na wyled;
Diwyd haelioni ei dad dilyned;
A digas eiriau da gysured
Och oer a mawrgŵyn ei chwaer Marged.

20. *Clogyrnach.*

Os rhai geirwir sy wŷr gorau,
I fyd saint e fudes yntau
Draw, ddifraw ddwyfron,
I fad lwysgad lon
Angylion yn ngolau.

21. *Cyrch a Chwta.*

Yn wych, byth ddinych, y bo;
Yn iach wiwddyn; och iddo!

Marwnad John Owen. 71

Mae hi 'n drist am hyn o dro,
Wir odiaeth wr, ei ado.
Ni wiw i ddyn waeddi, "O!
Och wâr Owen!" a chrïo;
Dal yn ei waith, dilyn ef
I'r wiw-nef; fe 'i ceir yno.

22. *Gorchest y Beirdd.*

Nid oes, Ion Dad, Na 'n hoes, na 'n had, Na moes, na 'mad—	}	na maws mwyn.
Dy hedd, Duw hael, Main fedd, mae 'n fael, A gwedd ei gael;		e gudd gwyn.

23. *Cadwyn Fer.*

Yn iach, wrol oen awch araf,
I'r hygaraf wr rhagorol;
Ef i'w faenol a fu fwynaf,
Un diddanaf, enaid ddoniol.

24. *Tawddgyrch Cadwynog,*

o'r hen ddull gywraint, fal y canai 'r hen feirdd; ac ynddo
mae godidowgrwydd gorchestwaith, a chadwyn ddiidor
trwyddo.

Dolur rhydrwm! dramawr benyd,
Boenau dybryd, ebrwydd ddidol;
Dwl Llŷn a llwm, llai mael Gwyndud
Gan doi gweryd gŵr rhagorol.
Dirfawr adfyd, odfa ddyfryd,
Ddifrif oergryd, fyd anfadol;
Dygn i'w edryd, adrodd ennyd
Ddwyn eu gwynfyd cyd, un cedol.

Arall,

o'r ddull newydd drwsogl ar y groes gynganedd, heb nem-
mawr o gadwyn ynddo; ac nid yw'r fath yma amgen na
rhyw fath ar gadwyn fyr gyfochr a hupynt hir yn nglŷn â'u
gilydd.

Doluriasant, dwl oer eisiau
Ei rinweddau, wr iawn noddol;
Llai eu ffyniant oll i'w ffiniau
Heb ei radau; bu waredol.
Cofiw'n ninnau ddilyn llwybrau
Ei dda foddau oedd wiw fuddiol;
Cawn, fal yntau, i'n heneidiau
Unrhyw gaerau Oen rhagorol.

DARN O AWDL I DYWYSAWG CYMRU.

Ar fesur gwawdodyn hir.

DWYRE, wawr fore erfai, arwain
Dymawr dydd eurwawr, da ei ddwyrain,
Dyddwaith ar euriaith i arwyrain
Drudfawr briodawr, eryr Brydain,
D'wysawg llym aerawg llu mirain—Dewi,
Dewr Ri Lloegr wedi llyw goradain,
Dithau, 'r por gorau ddirper gariad,
D'wysawg mawreddawg ymarweddiad,
Deyrnwalch, eurgeinwalch, o rhoi gennad,
Dygnwn, cynhyrchwn cu anerchiad;
Derbyn ddwys ofyn ddeisyfiad—maon,
Drudion dirolion dy oreuwlad.
Cymer—nid ofer yw' ein defod—
Cymer—anhyber gwyl in' hebod—
Cuaf wlad buraf ddyled barod
Cymru, rywioglu wir oreuglod;
Cymer, ein dewrner, fri 'n diwrnod;—cymer
O ber hyfodd-der ein hufudd-dod.

ARGRAFF

I'w dorri ar gaead blwch tybaco.

CETYN yw 'n hoes, medd Catwg,
 Nid fym oll onid y mwg;
 Gan hyn, os mwg yw 'n heinioes,
 Da iawn! oni chair dwy oes?
 Mygyn o'r cetyn cwta
 Wnai o un-oes ddwy-oes dda.

TRI ENGLYN MILWR.

Yn ol yr hen ddull.

AM ai prydawdd o dawr pwy
 Sef ai prydes Goronwy
 Neud nid llith na llesg facwy.

Ys oedd mygr iaith gyssefn
 Prydais malpai mydr merddin
 Se nym lle llawdd nym gwerin.

Neu nym doddyw gnif erfawr
 Gnif llei, no lludded echdawr
 Am dyffo clod gnif nym dawr.

ENGLYNION I ELIS ROBERTS, Y COWPER.

Sef, Ateb, Annerch, a Chynghor y Bardd Coch o Fon i Elisa Gowper, Pastynfardd, Llanrwst, yn cynnwys athraw-iaeth arbennig i ganu'n dincerddawl gymeradwy, yn ol rheol ac arfer y Goleirdd godidocaf o'r oes; yn nghyd a thafien o enwau'r holl drec, cêr, offer, a pheiriannau angenrheidiol i'r gelfyddyd, na chair mo'r fath mewn un Gramadeg a argraffwyd erioed; a'r cwbl wedi ei ddychymygu a'i gyfansoddi mewn modd eglur, hawdd ei amgyffred gan y gwannaf ei ddysg a'i ddeall.

Y BARDD fry ebrwydd ei froch,—Elisa,
Gan na lysaf monoch,
E weddai, er na wyddoch,
Druan! nad yw 'ch cân ond coch.

Yn fardd os chwi a fyn fod,—o hirddysg
I harddu Eisteddfod,
I hwylio clêr a hel clod,
Ceisiwch yr holl drec isod:

Hyd rhaff rawn o lawn llyn—y seiri
I fesuro 'ch englyn;
A rhasgl a dyr bob rhisglyn
Llif fras, a chwmpas, a chŷn.

Os hir y gwelir y gân,—y llafur
Fydd llifio darn allan;
Wrth y cwmpas gloywlas, glân,
Cofiwch, rhaid rhasglio'r cyfan.

Dylech mewn prifodl ei dilyn—rhagoch,
Megis rhigol corddyn,
Heb wyro lled gwybedyn
A'r twybil wiw, gynnill gŷn.

Yn fardd glân buan y bo'ch,—Elisa;
Hwylusaidd y dysgoch;
Doed a ddêl, bid da gwneloch
Anhepgor gyngor Huw Goch.

Caniad y Cymrodorion. 75

Ond deli'wch sylw,

Os rhaid i byliaid gaboli—rhigwm,
Rhag im' e bargofi,
Gorau o'r cer am beri
Cywreinio cân yw croen ci.

CANIAD

I'r Hybarch Gymdeithas o Gymrodorion, yn Llundain; ac
i'r hen odidawg iaith Gymraeg: ar y pedwar mesur ar
hugain.

1. *Englyn Unodl Union.*

MAWL i'r Ion! aml yw ei rad,—ac amryw
I Gymru fu'n wastad:
Oes genau na chais ganiad.
A garo lwydd gwŷr ei wlad?

2. *Proest Cadwynodl.*

Di yw ein Twr, Duw, a'n Tad;
Mawr yw 'th waith ym môr a thud;
A oes modd, O Iesu mad,
I neb na fawl, na bo 'n fud?

3. *Proest Cyfnewidiog.*

Cawsom far llachar a llid
Am ein bai yma 'n y byd;
Torres y rhwym, troes y rhod,
Llwydd a gawn a llawn wellhâd.

4. *Unodl Grwca.*

Rhoe nefoedd yr hynafiaid
Dan y gosp; a dyna gaid;
Llofr a blin oll a fu 'r blaid—flynyddoedd,
Is trinoedd estroniaid.

5. *Unodl Gyrch.*

Doe Rufeinwyr, dorf, unwaith
 I doliaw 'n hedd, dileu 'n hiaith,
 Hyd na roes Duw Ion, o'i rad,
 O'r daliad wared eilwaith.

6. *Cywydd Deuair Hirion.*

Aml fu alaeth mil filoedd ;
 Na bu 'n well, ein bai ni oedd.

7. 8. *Cywydd Deuair Fyrion ac Arwdl Gywydd ynghyd.*

Treiswyr trawsion
 I'n iaith wen hon,
 Dygn adwyth digwyn ydoedd,
 Tros oesoedd, tra y Saeson ;

9. 10. *Cywydd Llosgyrnawg, a Thoddaid ynghyd*

Taerflin oeddynt hir flynyddoedd ;
 Llu a'n torrai oll o'n tiroedd
 I filoedd o ofalon ;
 Yno o'i rad, ein Ner Ion,—a'n piau,
 A droe galonnau drwg clynion.

11. *Gwardodyn Byr.*

Ion trugarog ! onid rhagorol
 Y goryw 'r Iesu geirwir, rasol ?
 Troi esgarant traws a gwrol—a wnaeth
 Yn nawdd a phennaeth iawn ddiffynol.

12. *Gardodyn Hir.*

Coeliaf, dymunaf, da y mwyniant,
 Fawr rin Taliesin, fraint dilysiant,
 Brython, iaith wiwlon a etholant
 Bythoedd, cu ydoedd, hwy a'i cadwant
 Oesoedd, rai miloedd, hir y molant—Ner :
 Moler ; i'n gwiw Ner rhown egoniant.

13. *Byr a Thoddaid.*

A dd'wedai eddewidion—a wiriwyd
 O warant wir ffyddlon
 Od âi 'n tiroedd dan y taerion,
 Ar fyr dwyre wir Frodorion,
 Caem i'r hienfri Cymru hoenfron,
 Lloegr yn dethol llugyrn doethion,
 Llawn dawn dewrweilch Llundain dirion,—
 impiau
 Dewr weddau derwyddon.

14. *Hir a Thoddaid.*

Llwydd i chwi, eirweilch, llaw Dduw i'ch
 arwedd,
 Dilyth eginau, da lwythau Gwynedd;
 I yrddweis Dehau urddas a dyhedd,
 Rhad a erfyniwn i'r hydrwiau fonedd;
 Bro 'ch tadau a bri 'ch tudwedd—a harddoch!
 Y mae, wŷr, ynnoch emau o rinwedd.

15. *Huŷynt Byr.*

Iawn i ninnau,
 Er ein rhadau,
 Roi anrhydedd;
 Datgan gwyrthiau
 Duw, Dwr gorau
 Ei drugaredd.

16. *Huŷynt Hir.*

Yn ein heniaith
 Gwnawn gymhenwaith
 Gân wiw lanwaith,
 Gynnil, union;

Gwnawn ganiadau
 A phlethiadau
 Mal ein tadau,
 Moliant wiwdôn.

17. *Cyhydedd Fer.*

Mwyn ein gweled mewn un galon,
 Hoenfryd eurweilch, hen frodorion
 Heb rai diddysg, hoyw brydyddion
 Cu mor unfryd Cymru wenfron.

18. *Cyhydedd Hir.*

Amlhawn ddawn, ddynion,
 I'n mad henwlad hon ;
 E ddaw i feirddion
 Ddeufwy urddas
 Awen gymen, gu ;
 Hydr mydr c'i medru ;
 Da ini garu
 Doniau gwiwras.

19. *Cyhydedd Nawban.*

Bardd a fyddaf ebrwydd, ufuddol,
 I'r Gymdeithas, wŷr gwiw a'm dethol,
 O fri i'n heniath wiw, freninol ;
 Iawn, iaith geinmyg, yw ini 'th ganmol.

20. *Clogyrnach.*

Fy iaith gywraint fyth a garaf,
 A'i theg eiriau, iaith gywiraf ;
 Iaith araith eirioes,
 Wrol, fanol foes,
 Er feinioes, a'r fwynaf.

21. *Cyrch a Chwta.*

Neud esgud un a'i dysgo,
 Nid cywraint ond a'i caro,
 Nid mydrwr ond a'i medro,
 Nid cynnil ond a'i cano,
 Nid pencerdd ond a'i pyncio,
 Nid gwallus ond a gollo,
 Natur ei iaith; nid da'r wedd—
 Nid rhinwedd, ond ar honno.

22. *Gorchest y Beirdd.*

Medriaith mydrau,	}	Wyrth eres.
Wiriaith eiriau.		
Araith orau,		
Wiwdon wawdiau,	}	Lân wiwles.
Gysor geisiau,		
Wiwlon olau,		

23. *Cadwyn Fer.*

Gwymp odiaethol gamp y doethion,
 A'r hynawsion wŷr hen oesol;
 Gwau naturiol i gantorion
 O hil Brython hylwybr, ethol.

24. *Tawddgyrch Cadwynog.*


O'ch arfeddyd wych, wir fuddiol,
 Er nef, fythol, wŷr, na fethoch.
 Mi rof ennyd amryw fanol,
 Ddiwyd, rasol, weddi drosoch;
 Mewn serch brawdol diwahanol,
 Hoyw-wyr doniol, hir y d'uno'ch!
 Cymru 'n hollol o ddysg weddol,
 Lin olynol, a lawn lenwoch.

AWDL

I ateb Pedwar Englyn Ieuan Brydydd Hir.
 Am rhoddes Rhëen riaidd anrheg,
 Anian hynaws, asgre faws fwyndeg,
 Araf iaith aserw, ddichwerw chweg—Awen,
 A gorau llëen, llefn Frythoneg.
 Neut wyt gyfeillgar, car cywirdeg—ddyn ;
 Neud wyf gas erlyn, gelyn gysteg.
 Mi piau molawd gwawd Gwyndodeg ;
 Gnawd ir a folwyf fawl anhyfreg ;
 Haws ym llawch hydr no chyhydreg—â mi ;
 Hanbid om moli mawl ychwaneg.
 Ceneist foliant fal nad atreg—ym hwnt
 Dy foli, pryffwnt praff Gymraeg.

Wyt berchen Awen ben, baun hoendeg,
 Wyt ynad diwad Deheubartheg,
 Odid hafal, hyfwyn osteg,—i ti
 Blaenawr barddoni, bri Brythoneg.
 Gweleis ofeirdd, afar waneg,—o wÿn
 Yn malu ewyn Awen hyllgreg.
 Neu mi nym dorfu dyrfa dichweg
 Beirdd dilym, dirym, diramadeg :
 Ciwed anhyfaeth, gaeth, ddiogoethdeg—leis ;
 Sef a'u tremygeis megys gwartheg.
 Gweleis feirdd cywrein, mirein, mwyndeg—lu
 Moleis eu canu, cynnil wofeg.

Er a rywelais, ceis cysondeg,
 Ny weleis debyg dy bert anrheg,
 Ieuan, mwy diddan no deuddeg—wyt ym,
 Fardd erddrym, croywlym, grym gramadeg.



YMYSG Y CYNRODORION.

“Digwydd a wnaeth i'r Llew ddal sylw arnaf.” II. 19.



BRUT SIBLI,

Awdl yn ol dull Meilir Brydydd, pan gant i Drahaiarn fab
Caradawc a Meilir mab Rhiwallawn, yn iawn ysgrifenydd-
iaeth y Gogyneirdd.

YOLAFI Naf o nef im noddi
Yolaf nys tawaf p¹ les tewi
Am vap hywel hael hywaet vyg kri
Tawel vap hywel o hil cewri
Dypryd vym pryd ym pryderi lawer.
Am goryw bryder brutieu Sib'i
Mi os canaf a syganai hi
Neut (namwyn kelwyt) ti nym coeli
Celwytawc euawc eu broffwydi
Bob nos a dyt a fyt yth siommi
Gorpwyni dank ken trank a Duw tri
Tawaf nys doraf onys dori
Vyg geneu diheu diheur vi ith wyt.
Ys celwyt ni lwyt ny lut drychni
Map hywel gochel gyrch cymhelrhi
Er a droyttynt gynt geu broffwydi
Cyd bwynt hyd nemawr yth uawr voli
Gweckry eu geirieu geu a gwegi
Pan lat lat letir a llauyn llauyn llabir.
Yno y gwelir pwy a goeli
"Cet buyf gwir nyt goreu vi o nep dyn
Y disgogan hyn o gryn gredi
Mal marchawc berthawc yt ymborthi
Mal gwron dragon dreic eryssi
Yg gwynias lleas llew a fethri
Ar yr asp yr yspys dyrcheui
Osswyt yn fwyr a lwyr lethi
Ny ryberis nef nep i'lh dofi
Nyth rybar amhar ymhwrt beri
Ny digawn kadyr cyhydrec a thi

Er gwythauwr reityawr ny roti uram
 Neut ny maccwys mam map a dori."
 Andaw di breityawr brytest Sibli
 Rinyeu ei geneu diheu dybi
 Yn a egorwyf gwirion wyv i
 Yn ethryb casswir pam ym cessi?
 "Dieu y dybyd dyt dynysgi
 A rewin a thrin a thrwst ynni
 A phan yssic lluric llwyr wae di
 Can pan yssic lluric llaur a lyi
 Diffeith woleith o wael dyli a gai
 A chyn tervyn mei mawr egrygi
 Neu dygyvyd llew llawn gwrhydri
 Lleweit arwreit eryr cymmri
 Yn wg digyurwg digyurag a thi
 Tithau gan ei dwrf a lwrf lechi
 Cyn nos gwener disgoganaf vi
 Ucher yth later ti ny leti
 A chan anreith gwoleith gwael dy uri
 Diardwy abwy abar fyti
 Esgyrn dy syrn hyd Sarn Teivi a grein
 A byt lawen urein ar uraen weli."

*Diwyt yr Awdyl, A phoed gwir a vo,
 hebai Oronwy Ddu, 1754.*

ENGLYN I JOHN DEAN.

Y llongwr melynaf yn y deyrnas yma. 1754.

MOLIAN am bob peth melyn,—am yr haul,
 A mer-helyg dyfrllyn;
 Am Sion Den, a chwyr gwenyn,
 A mad aur, petai 'maw dyn.

CYWYDD AR WYL DDEWI, 1755.

I'w gyflwyno i'w Freninol Uchelder Sior, Tywysawg Cymru,
gan yr urddasol Gymdeithas o Gymrodorion yn Llundain.

SLYW digamrwysg gwlad Cymru
 A'i chynnydd, llywydd ei llu,
 Por odiaeth holl dir Prydain,
 Penteulu hen Gymru gain,
 Llyw unig ein llawenydd ;
 Mwy cu in' ni bu ni bydd.
 Eich annerch rhoddwch inni,
 Ior glan, a chyngan â chwi.
 Gwaraidd fych, Dwysawg eirioes,
 Wrth ein gwâr ufuddgar foes.
 Dychwelawdd, dan nawdd Duw Naf,
 Dyddwaith in' o'r dedwyddaf,
 Diwrnod—poed hedd Duw arnynt—
 Na fu gas i'n hynaif gynt ;
 Diwrnod y cad iawnrad yw
 Ym maniar Dewi Mynyw ;
 Pan lew arweiniodd Dewi
 Ddewr blaid o'n hynafiaid ni
 I gyrch gnif ; ac erch y gwnaeth
 Ar ei alon wrolaeth.
 Ni rodd, pan enillodd, nod
 Ond cenin yn docynod.
 Cenin i'w fyddin fuddug
 Nodai i'w dwyn ; a da 'u dug.
 Hosanna, ddifflina floedd,
 Didawl ei amnaid ydoedd,
 Gan Ddewi, ac e 'n ddiarf,
 Trech fu cri gweddi nag arf ;
 A Chymru o'i ddeutu ddaeth
 I gael y fuddugoliaeth.

Hwyntau, gan lwyddo 'u bantur,
 A glân barch o galon bur,
 Er oesoedd a barasant
 Addas wyl i Ddewi Sant,
 Ac urddo 'r cenin gwyrddion
 Yn goffhad o'r hoywgad hon,
 A bod trwy 'n cynnefod ni
 Diolch i Dduw a Dewi.

Dewi fu 'n noddwr diwael,
 Chwi ydyw ein hoywlyw hael.
 Mae 'r hanes im', Ior hynod,
 A fu, y geill eto fod.
 Ar Dduw a chwi, rwydd eich iaith,
 Yn gwbl y mae ein gobaith,
 Pan gyrch Naf eich dewraf daid
 I fynu—nef i'w enaid—
 I newid gwlad lygradwy
 Am berffaith a milwaith mwy,
 Iwch gael—pand yw hyfael hyn?
 Rheoli pob rhyw elyn,
 Gorchfygu talm o'r Almaen,
 Taraw 'sper hyd dir Ysbaen,
 Cynnal cad, yn anad neb,
 Tandwng, yn ddigytundeb,
 I ostwng rhyfawr ystawd
 Llyw Frainc, fel nad allo ffrawd ;
 A difa, trwy nerth Dofydd,
 Ei werin ffals a'r wan ffydd,
 Dannod eu hanudonedd
 Yn hir cyn y rhoddir hedd.

Yn ol dial ar alon,
 Rhial hardd yw 'r rheol hon :
 Gorsang y cyndyn gwarsyth,
 Bydd wlydd wrth y llonydd llyth :
 Milwaith am hyn y 'ch molir,

Cyfarch y Cymrodorion. 85

A'ch galwad fydd TAD EICH TIR,
Gwr odiaeth, a gwaredydd
Yn rhoi holl Ewropa 'n rhydd;
Ac am glod pawb a'ch dodant
Yn rhychor i Sior y Sant.

DAU BENNILL* GWAWDODYN HIR,

I Gyfarch y Cymrodorion yn Llundain pan y cyflwynwyd
iddynt Annerch-Gywydd gan Ieuan Brydydd Hir.

Calan Mehefin, hin yn hoeni,
Cein trydar adar, hyar heli;
Cein rhawd cân wasgawd, trawd trwy erddi,
Cein tawel awel o wyrdd lwyni;
Ceinmycach, mwynach i mi—oedd acen
Cân awen lawen lén barddoni.

Canfum ddillynion gyson gerddi
Ceinfoes, cân eirioes, eres odli
Ceinfardd Deheudir Hir hoywfri,
Cywyddwawd moliant a gant ichwi;
Cyfarch hybarch heb eich coddî,—Frython,
Ceidr Gymrodorion dewrwyd ynni.

* Cafwyd ymysg ysgrifau Ieuan Brydydd Hir, yn dwyn
enw Goronwy. Rhoddwyd gan y Parch. D. Silvan Evans i'r
Parch. Robert Jones, Rotherhithe. Tybia'r ddau mai gwaith
Goronwy yw'r ddau bennill.


ENGLYNION PROEST CYFNEWIDIOG WYTH
BAN

I Twm Siôn Twm.

Twm Siôn Twm, y cidwm cas,
 Twm Siôn Twm, blerwm heb les ;
 Twm, Twm, os codwm os cis ;
 Twm achrwm a glwm ei glos ;
 Twm Siôn Twm ruddlwm ni rus ;
 Twm Siôn Twm drwm droir i'r drws ;
 Twm Siôn Twm grwm yn ei gryd ;
 Twm, Twm, y cawr hendrwm, hys !

Twm Siôn Twm bendrwm mewn bad,
 Twm â rhwyf, ond twym y rhed ?
 Twm i'r lan hwnt â mawr lid,
 Twm a nawf atom i'w nod ;
 Twm yw 'n twr bob tam o'n tud ;
 Twm o ainc yrr Ffrainc i'r ffrwd,
 Twm, Twm, a botwm i'r byd,
 Twm freichdrwm, Dwm, dyd ! dyd !

Twm Siôn Twm, bonwm a'i bar ;
 Twm Siôn Twm, gidwm a'i gêr ;
 Twm lân yw tarian y tir ;
 Twm, o thry cad fad i for,
 Twm yn un cwrwm a'i cur ;
 Twm ddistaw o daw o'r dŵr,
 Twm fwyn yn addfwyn i'w nyr ;
 Twm ffraeth ; i'ch gwasanaeth, Syr.



ATODIAD II.

(*Wele rai sylwadau wedi eu figo o lythyrau Goranwy Owen ar lenyddiaeth ei oes,—oes yr ymdrech rhwng ysgol surfeiriadol goeg-ddysgedig Pope ac ysgol addfswyn naturiolach Addison, oes dechreu darganfod mawredd Milton, oes gwawr gyntaf y Cysnod Rhamantaidd a'r Deffroad Cymreig.*)

THE BRITISH AWEN.

[*At Richard Morris, Chwef. 21, 1753.*]

WELSH has its own proper idioms as others have ; and, consequently, when it is tied down to keep pace with another, it is strained and fettered, like David in Saul's armour ; and like him, would prefer its own sling and stone—the meanest of weapons — to being armed *cap-à-pie* in such armour as it has not proved and knows nothing of. Thus, with regard to translations, it fares with all languages ; but more especially where there is such a very great, I had almost said irreconcilable, difference between the proprieties and idioms of two languages, as confessedly there is between ours and the English. The difficulty, great as it is, is again doubly augmented, when our translation is required to be in verse. There, besides the usual difficulty of making what is a beautiful thought in the one appear like common sense in the other, we are tied to find out and range in order letters and syllables. What an exquisite nicety is required in this “literal” muster, if I may so call it, you very well know ; so that it is sufficient for me

only to mention it. Perhaps it were to be wished that the rules of poetry in our language were less nice and accurate; we should then undoubtedly have more writers, but perhaps fewer good ones. I would never wish to see our poetry reduced to the English standard; for I can see nothing in that to entitle it to the name of poetry, save the number of syllables which yet is never scrupulously observed, and a choice of uncommon, or, if you please, poetic words, and a wretched rhyme sometimes at the end, and in blank verse, which is the best kind of poetry in English, and no rhyme at all. Milton's "Paradise Lost" is a book I read with pleasure, nay, with admiration and rapture. Call it a great, sublime, nervous, or, if you please, a divine work, you will find me ready to subscribe to anything that can be said in praise of it, provided you do not call it poetry. Or if you do so, that you would likewise allow our "Bardd Cwsg" to take his seat amongst the poets. As English poetry is too loose, so ours is certainly too much confined and limited, not by the *Cynghaneddau*—for without them it would not be poetry—but by the length of verses, and poems too. Our longest lines do not exceed ten syllables, and have too scanty a space to contain anything great within the compass of six or seven stanzas, the usual length of the *Gwardodyn Byr*; and our longest poems are not above sixty or seventy lines—the standard measure of *Dafydd ap Gwilym's Cywyddau*, which is far from being a length adequate to a heroic poem. These, however, are difficulties that will never, I apprehend, be remedied. These models our wise forefathers

